ADRODDIAD BLYNYDDOL MERCHED Y WAWR 2008-2009

MUDIAD GWIRFODDOL SYDD YN TREFNU GWEITHGAREDDAU CYMDEITHASOL AC ADDYSGOL I FERCHED AC SYDD YN HYBU ADDYSG, DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU YNG NGHYMRU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Rhif Elusen: 506789

SWYDDFA GENEDLAETHOL:

CANOLFAN MERCHED Y WAWR
STRYD YR EFAIL
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 1JH

Ffôn: 01970 611 661
Ffacs: 01970 626 620
E-bost: swyddfa@merchedywawr.com
Safle gwe: www.merchedywawr.com a
www.clybiaugwawr.com

CYNNWYS

RHAGARWEINIAD	1
CYNNWYS	2
SWYDDOGION A STAFF CENEDLAETHOL	3
RHESTR CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR	4
GAIR GAN Y LLYWYDD CENEDLAETHOL	6
GWEITHGAREDDAU AM Y FLWYDDYN 2008-2009	10
ADRODDIADAU'R RHANBARTHAU	13
ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU	25
CRYNODEB O STRATEGAETH	42
CYFRIFON	43

Cynhyrchwyd
gyda chefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

SWYDDOGION CENEDLAETHOL 2008-2009

Y PWYLLGOR LLYWIO

LLYWYDD ANRHYDEDDUS	Marged Jones (m. Hydref 2008)
LLYWYDD ANRHYDEDDUS	Sylwen Lloyd Davies (Mai 2009 ymlaen)
LLYWYDD CENEDLAETHOL	Esyllt Jones
IS-LYWYDD CENEDLAETHOL	Mererid Jones
YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL	Einir Wyn
IS-YSGRIFENNYDD CENEDLAETHOL	Mary Roberts
TRYSORYDD CENEDLAETHOL	Elinor Davies
IS-DRYSORYDD CENEDLAETHOL	Elfair Jones
CYNRYCHIOLWYR YR IS-BWYLLGORAU}	Catrin Stevens
AR Y PWYLLGOR LLYWIO }	Myfanwy Povey
	Glenys Davies

STAFF

CYFARWYDDWR CENEDLAETHOL	Tegwen Morris
SWYDDOGION DATBLYGU:	
Y De-ddwyrain a Gorllewin Morgannwg	Malvina Ley
Gogledd Orllewin Cymru a Maldwyn Powys	Mim Roberts
Gogledd Ddwyrain Cymru	Anwen Williams
Ceredigion a Phenfro	Elizabeth Evans
Caerfyrddin	Yvonne Davies-Grodzicka
Y De-ddwyrain a De Powys	Eirlys Davies
SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y Gogledd	Lowri Rees-Roberts
SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y De	Ruth Morgan
STAFF Y GANOLFAN	
Rheolwr Hyrwyddo Cymraeg Cymunedol	Jayne Jones
Swyddog Gweinyddol	Delyth Rees
Swyddog Cyllid	Miriam Garratt
Gofalwr	Brian Ishmael

IS-BWYLLGOR Y WAWR

GOLYGYDD	Catrin Stevens
IS-OLYGYDD	Rhiannon Parry
DOSBARTHWR	Gwenda John (m)
TREFNYDD HYSBYSEBION	Meirwen Hughes

IS-BWYLLGOR GŴYL A HAMDDEN

LLYWYDD	Glenys Davies
YSGRIFENNYDD	Annie Parry
TRYSORYDD	Meira Evans

IS-BWYLLGOR IAITH A GOFAL

LLYWYDD	Myfanwy Povey
YSGRIFENNYDD	Cynthia Edwards
TRYSORYDD	Margaret Jone

RHESTR CANGHENNAU A CHLYBIAU GWAWR

Rhanbarth Aberconwy (15) 14 +1
Betws y Coed a'r Fro, Capel Garmon, Carmel, Cyffordd Llandudno, CG Crwst, Eglwys Bach, Eigiau, Glan Conwy, Henryd, Llanddoged, Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Mochdre, Penmachno

Rhanbarth Arfon (17) 15 + 2
Bangor, Bethel, Bethesda, Brynaerau, Caernarfon, Deiniolen, Dinas Llanwnda a'r Cylch, CG Efa, CG Glannau Llyfni, Llandwrog, Llanrug, Penrhosgarnedd, Penygroes, Rhiwlas, Tregarth, Waunfawr, Y Groeslon

Rhanbarth Caerfyrddin (41) 31 + 10
Abergorlech, Abernant, Bargod Teifi, Berem, Bro Alma, Bro Cennech, Bro Elfed, Bro Gwili, Bro Pantycelyn, Caerfyrddin, Capel Iwan, CG Alltgafan, CG Clychau'r Gôg, CG Cwm Gwendraeth, CG Dinefwr, CG Dyffryn Aman, CG Llanllwni, CG Llanymddyfri, CG Maelog, CG Llangadog, CG Merched Hywel, Geler, Glannau Pibwr, Gronw, Gwendraeth, Hendygwyn ar Daf, Llandeilo, Llanddarog, Llanelli, Llangadog, Llangyndeyrn, Llannau'r Tywi, Nantgaredig, Pencader a'r Cylch, Peniel, Penygroes, Pump Heol, Pumsaint, Rhydaman, San Clêr, Y Tymbl

Rhanbarth Ceredigion (40) 33 + 7
Aberporth, Aberystwyth, Beulah, Bro Cranogwen, Bro Ilar, Bronant, CG Cylch Cennin, CG y Cnapan, CG Cwennod, CG Cwmann a'r Fro, CG Glannau Teifi, CG Y Pennau, CG y Wiber, Cylch Aeron, Cylch Emlyn, Cylch Teifi, Cylch Wyre, Cylch y Mwnt, Felinfach a'r Cylch, Ffair Rhos a'r Cylch, Genau'r Glyn, Glynarthen, Llanafan, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a'r Cylch, Llanfarian a'r Cylch, Llangwyryfon, Llannon, Llanybydder, Llwynpiod, Melindwr, Mynach a'r Cylch, Penrhyncoch, Rhydypennau, Talgarreg, Talybont, Tregaron, Y Bryniau, Y Dderi, Y Garreg Wen

Rhanbarth Colwyn (17)
Abergele, Bae Colwyn, Groes, Gwytherin, Hen Golwyn, Henllan, Llanelwy, Llangernyw, Llangwm, Llansannan, Llanfair Talhaearn, Nantglyn, Pandy Tudur, Pentrefoelas, Prestatyn, Uwchaled, Y Rhyl

Rhanbarth Y De-ddwyrain (14) 11 + 3
Aberdâr, Bro Radur, Caerdydd, Casnewydd, CG Gartholwg, CG Ogwr, CG Y Fenni, Merthyr Tudful, Penybont ar Ogwr, Porthcawl, Tonysguboriau, Y Barri, Y Bontfaen, Y Garth

Rhanbarth Dwyfor (18)
Abersoch, Bryncroes, Cricieth, Chwilog, Golan, Llanaelhaearn, Llaniestyn, Llannor ac Efailnewydd, Llwyndyrus, Morfa Nefyn, Mynytho, Nant Gwynant, Nefyn, Pencaenewydd a'r Cylch, Pistyll, Porthmadog, Pwllheli, Trefor

Rhanbarth Glyn Maelor (19) 16 + 3
Bontuchel a'r Cylch, Bryneglwys a Llandegla, CG Traed yn Rhydd, CG Maelor, CG Y Gleision, Corwen, Cynwyd, Derwen a'r Cylch, Dinbych a'r Cylch, Dyffryn Ceiriog, Gwyddelwern, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr Y.C., Rhiwlas a'r Cylch, Rhos a Phenycae, Rhuthun, Treffynnon, Wrecsam, Yr Wyddgrug

Rhanbarth Gorllewin Morgannwg (16) 14 + 2
Abertawe, Afan, Castell Nedd, Clydach, CG Cwm Tawe, CG Yr Elyrch, Glyn Nedd, Gorseinon, Gwaun Gors, Lôn Las, Pontardawe, Pontarddulais a'r Cylch, Treboeth, Treforys, Ystalyfera, Y Gwter Fawr

Rhanbarth Maldwyn-Powys (16) 14 + 2
Bro Cyfeiliog, Bro Ddyfi, Carno, CG Glynŵr, CG Tanat, Croesoswallt, Y Foel a'r Cylch, Glantwymyn, Llanerfyl, Llanfair Caereinion, Llanrhaeadr ym Mochnant, Llanfyllin, Llanwddyn, Y Bannau, Y Canoldir, Y Drenewydd

Rhanbarth Meirionnydd (30) 27 + 3
Aberdyfi, Blaenau Ffestiniog, Brithdir, Bro Tryweryn, Bryncrug, Corris a'r Cylch, Deudraeth, Dolgellau, Glanrafon-Corwen, Harlech, CG Criw Cain, CG Y Gwyniaid, CG Y Sgwâr, Llandrillo, Llan Ffestiniog, Llandderfel, Llanuwchllyn, Maesywaun, Mawddwy, Nantcol, Rhydymain, Pennal, Sarnau, Talsarnau, Trawsfynydd, Tywyn, Y Bala, Y Bermo a'r Cylch, Y Ganllwyd, Y Parc

Rhanbarth Môn (23) 21 + 2
Amlwch, Benllech, Bodedern, Bodwrog, Brynsiencyn, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, CG Y Gors Coch, CG Lawd, Llanddeusant, Llandegfan, Llanfairpwllgwyngyll, Llanfechell, Llangefni, Llannerchymedd, Maelog, Niwbwrch, Porthaethwy, Rhosmeirch, Rhosybol, Talwrn, Y Fali

Rhanbarth Penfro (15) 14 +1
Blaenffos, Beca, Bro Barti Ddu, Bro Ddewi, CG Clydau, Capel Newydd, Crymych, Dinas, Ffynnon Groes, Hwlffordd, Llandudoch, Maenclochog, Mynachlogddu, Tegryn, Trefdraeth.

Gair gan y Llywydd Cenedlaethol
Esyllt Jones

Tristwch mawr ar ddechrau fy nghyfnod fel Llywydd Cenedlaethol oedd clywed am farwolaeth sydyn Mena Jones, fu'n swyddog datblygu Merched y Wawr yng Ngogledd Cymru o 1991 tan 2003. Roedd yn drylwyr ymhob agwedd o'i gwaith a bu'n weithgar yn y Mudiad wedi ymddeol gyda'r un ymroddiad, ac roedd presenoldeb cymaint o'r aelodau yn yr angladd yn dyst o'r parch a'r anwyldeb oedd iddi o fewn y Mudiad.

Mae Llanbedr Pont Steffan yn gartref i'r penwythnos preswyl bob yn ail flwyddyn bellach ac yno yr oeddem ganol mis Medi 2008 unwaith eto i fwynhau'r croeso arferol, y bwyd da a thywydd bendigedig. Roedd yn bleser arbennig imi ar ddechrau'r penwythnos i gael anrhegu Mary Price ac Elfair Jones ar ddiwedd eu tymor hwy fel llywydd a thrysorydd cenedlaethol. Bu Mary yn law gadarn ar y llyw tra bu'n Dathlu'r Deugain bron ymhob cwr o Gymru, a bu Elfair yn cadw golwg craff ar gyllid y Mudiad yn ei ffordd dawel effeithiol hi. Yn wir er fod tymor Elfair wedi dod i ben cytunodd i aros yn is-drysorydd am un flwyddyn ychwanegol gan nad oedd gennym is-drysorydd i gymryd drosodd. Diolch i'r ddwy ohonynt am eu cyfraniad amhrisiadwy.

Arbrawf newydd yn y penwythnos yma oedd gwe-ddarlledu yn fyw o Lanbedr Pont Steffan; cafodd rhyw 6 aelod o Ferched y Wawr hyfforddiant i drafod y camerâu ac i weithio yn y stiwdio gan Carol Byrne Jones a chyda hi yn cyfarwyddo aeth y cyfan yn fyw nos Wener a bore Sadwrn, gan roi blas o'r penwythnos i aelodau adre. Dyma'r dyfodol mae'n siŵr!

Pan gyrhaeddodd yr aelodau bnawn Gwener ar gyfer y penwythnos, roedd arddangosfa o ***fras*** o bob lliw a llun, siâp a chyflwr yng nghyntedd y coleg i nodi lansio ymgyrch y Mudiad i gasglu ***Bras*** i Oxfam Cymru. Y pwrpas oedd annog merched i ail-gylchu pob dilledyn pa beth bynnag ei gyflwr gan ddechrau gyda *bras.* Dyma mae'n debyg yr adnodd mwyaf gwerthfawr meddai Oxfam, gan ei bod yn anodd cynhyrchu *bra*, ac mae dyfodol i bob bra wrth ail-gylchu; -rhai yn cael eu gwerthu yn y siopau yma, rhai yn cael eu rhwygo i greu stwffin i gelfi a rhai'n cael eu hallforio i'r gwledydd sy'n datblygu a'u gwerthu i ferched yno am bris rhesymol iawn. Dyma ymgyrch sy'n dangos ein chwaeroliaeth â merched y byd a hefyd mae'n ein hatgoffa o bwysigrwydd ail-gylchu. Yn ystod y penwythnos daeth Luned Jones, swyddog cyfathrebu Oxfam Cymru atom i sôn am waith Oxfam ac i lansio'r ymgyrch yn swyddogol. Daliodd hyn i gyd sylw'r Wasg ac roedd yn eitem ar y Newyddion y noson honno yn ogystal â sawl cyfeiriad a chyfweliad ar y radio dros y penwythnos! Ar ddechrau'r ymgyrch y nôd oedd casglu rhyw 3,000 o fras ond wedi blwyddyn hynod o frwdfrydig casglwyd dros 15,000 a chreu llawer o hwyl a bu'n hysbyseb cadarnhaol inni fel Mudiad. Dwi'n ddiolchgar ac yn falch iawn o'r aelodau fu mor gefnogol a phrysur gyda'r ymgyrch yma.

Ar Hydref 29ain 2008 daeth y newydd am farwolaeth Marged Lloyd Jones ein Llywydd Anrhydeddus, awdures a chymwynaswraig o fri, a hithau'n 95 mlwydd oed. Gweithiodd yn ddiflino dros y Mudiad o'r cychwyn cyntaf ac aeth ati i sefydlu dros gant o ganghennau yn y saithdegau. Bu'n hynod gefnogol a chadarnhaol i swyddogion ac aelodau'r mudiad fel Llywydd Anrhydeddus ac erys ei dylanwad arnom wrth i ninnau ymgyrchu dros yr iaith a diwylliant Cymraeg.

Newidiwyd ffurf y Cwis Hwyl a dilyn patrwm "Pwy sy am fod yn Filiwnydd" gan roi dewis o bedwar ateb i bob cwestiwn ac yn ôl yr adborth a gafwyd profodd yn arbrawf llwyddiannus. Anogwyd pob rhanbarth i gynnal y Cwis mewn lleoliad deniadol i ychwanegu at *hwyl* y noson.

Roedd *bras* yn amlwg yn y Ffair Aeaf hefyd gan taw dyna oedd yn addurno'n coeden Nadolig ar ein stondin yno. Bu cystadlu brwd ac awyrgylch hyfryd wrth gymdeithasu a chael blas o win di-alcohol cynnes i'n twymo.

Mynychais gyrsiau crefft y De a'r Gogledd a dotio at ddoniau'r tiwtoriaid a'r aelodau, ac edmygu'r holl waith paratoi gan y tiwtoriaid medrus i greu cyrsiau llwyddiannus poblogaidd.

Cawsom ddau ddiwrnod braf i'r ddau ginio llywydd - y naill yng Ngwesty Manor Park, Clydach, a'r llall yng ngwesty Oriel House, Llanelwy. Roedd nifer dda yn y ddau ginio i fwynhau'r bwyd blasus ac adloniant arbennig yn y ddau safle.
Ddechrau Mai bûm yng nghyngerdd dathlu deugain Rhanbarth Caerfyrddin, a chael noson o fwyniant cerddorol pur yn gwrando ar Rhys Meirion a Chôr Rhuthun, dan arweiniad Robat Arwyn. Soniodd Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith, yn ei hanerchiad yn ystod y noson, am gyfraniad Merched y Wawr i Gymru dros y deugain mlynedd cynt a rhoddodd her i ni i barhau'r cynnydd yn nefnydd yr iaith, yn ein cymunedau ninnau yn y dyfodol.
Mae'r cyfarfod blynyddol, yrŴyl Haf a'r chwaraeon cenedlaethol ar un diwrnod ganol mis Mai yn fwrlwm o'r bore cyntaf tan yr hwyr yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth. Eleni cefais y fraint o urddo Sylwen Davies yn Llywydd Anrhydeddus newydd Merched y Wawr. Mae'n un o'r rhai a sefydlodd y Mudiad ym 1967 ac wedi gweithio'n ddi-flino ers hynny dros ein hiaith a'n gwlad. Cafodd gymeradwyaeth neilltuol gan yr aelodau wrth iddi dderbyn y llywyddiaeth yn y Cyfarfod Blynyddol.
Roedd Sgrabl Gymraeg yn un o'r chwaraeon eleni a phrofodd yn boblogaidd iawn gyda chystadlu brwd am dlws y pencampwyr. Yn wir cafwyd cystadlu da ar yr holl chwaraeon, y cystadlaethau crefft ac ar yr eitem o adloniant ar y testun Bro a Bra! Cafwyd seremoni urddasol dan ofal Myfanwy Povey - llywydd is-bwyllgor Iaith a Gofal - i anrhydeddu'r dysgwyr oedd wedi cystadlu yn eu hadran hwy a braf oedd gweld llond llwyfan ohonynt yn mwynhau'r profiad ac yn gwrando ar feirniadaeth galonogol a pherthnasol Helen Prosser. Ie diwrnod prysur ond boddhaol tu hwnt.
Rhaid diolch a chanmol aelodau'r mudiad yn y De-ddwyrain am ofalu am ein stondin unwaith eto yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bae yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai gan roi croeso i bawb ddaeth heibio i ymweld â ni. Mae gwyliau cenedlaethol yn ymweld â'u hardal hwy yn aml bellach ac yn rhoi tipyn mwy o faich arnynt ac felly y pwyllgor Llywio fu'n gyfrifol am yr arddangosfa o fewn y babell yno. Roedd diddordeb mawr yn y 70 o deis dynion enwog a rhyw 30 o *fras* merched blaenllaw Cymru! Cafwyd ymateb da i'r cwis "Tei Pwy?" hefyd er na chafodd neb bob un yn iawn ac aeth y wobr gyntaf i Gaerfyrddin. Ar y pnawn Mercher yno cyflwynodd Merched y De-ddwyrain lyfr Braille 'Hoff Gerddi Cymru' i uned arbennig Ysgol Gyfun Plasmawr, Caerdydd ac er ei bod yn bwrw glaw yn drwm tu allan roedd y babell yn llawn ar gyfer y seremoni hyfryd hon.
Roedd y tywydd yn fendigedig eto pan fentrodd dau lond bws o'r aelodau i Iwerddon am ein trip tramor cyntaf ers blynyddoedd. Dan ofal cwmni bysiau Seren Arian cawsom daith hwylus dros y môr llonydd tawel i westy crand pedair serenY Talbot yn Carlow, rhyw awr o ddinas Dulyn. Aeth y mwyafrif o'r merched i ymweld â chanolfan Guinness fore Sadwrn ac o ben yr adeilad gallem weld yr holl ddinas yn glir o'n cwmpas cyn mentro iddi am orig ddifyr. Cafwyd gwesty da, bwyd ardderchog, cwmni arbennig, hwyliog ac aeth y trefniadau i gyd fel wats .
Morgannwg oedd yn noddi'r Sioe Genedlaethol yn Llanelwedd fis Gorffennaf a bu aelodau rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn ddiwyd yn paratoi arddangosfa yn Dathlu Crochenwaith Morgannwg, ac yn croesawu ymwelwyr i'r stondin fel arfer. Cafwyd cystadlu a safon uchel yn y cystadlaethau crefft a gosod blodau ac er gwaethaf y tywydd hynod o wlyb roedd y stondin yn sych, ac yn braf, hapus a phrysur drwy'r amser. Cynhaliwyd derbyniad eto i'n partneriaid ac i swyddogion rhanbarth Merched y Wawr ar brynhawn Mercher y Sioe.
Gwellodd y tywydd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol y Bala rhyw wythnos yn ddiweddarach ac fe gychwynnodd gweithgareddau'r Mudiad yno gyda chladdu'r Capsiwl Amser yng Nghanolfan Cywain, ger y Bala. Ynddo ceir cofnod o'r mudiad fel ag y mae yn 2009 yn gyfraniadau gan bob bron i bob cangen, clwb a rhanbarth, ac is bwyllgor ac wrth gwrs copïau o'r Wawr. Nodir y man lle y'i claddwyd gan lechen yn nodi y dylid ei agor ymhen can mlynedd! Gan bwy?? Unwaith eto roedd pabell y Mudiad ar y Maes yn brysur tu hwnt bob dydd a chroeso twymgalon gan ferched Meirionnydd i bawb alwodd heibio. Aur, Llechi a Gwlân oedd testun yr arddangosfa o waith cain trawiadol gan aelodau'r rhanbarth. Fel arfer

cafwyd cyflwyniad ar lwyfan y Brifwyl fore Mercher ac roedd yn wledd i weld a gwrando ar dros 150 o ferched y fro (ac un dyn a'i gi defaid!) yn olrhain y Dechreuadau yn y Bala. Diolch i Mair Penri am gyfarwyddo a chynhyrchu'r cyfan i'r fath safon. Wrth ddod allan o'r Pafiliwn roedd cyffro mawr wrth inni amgylchynu'r Pafiliwn Pinc â chadwyn o *fras* i ddathlu ein cydweithrediad ag Oxfam Cymru dros y flwyddyn. Cafodd y digwyddiad yma eto sylw rhyfeddol a sylweddol gan y cyfryngau Cymraeg a Saesneg y diwrnod hwnnw gan roi hysbyseb cadarnhaol eto i Ferched y Wawr ac i Oxfam.

Ymhen awr roeddem yn y Babell Lên yn gwrando ar raglen deyrnged i goffau Marged Lloyd Jones ein diweddar Lywydd Anrhydeddus neu *Marged* inni fel aelodau wrth gwrs. Trwy luniau a darlleniadau cawsom ddarlun byw o fywyd a gwaith Marged a'r holl weithgareddau y bu'n ymwneud a hwy, dan arweiniad ei merch Eiry Palfrey a Mererid Jones, ein Is-lywydd Cenedlaethol. Diolch iddynt am raglen gofiadwy. Bu cyfle i weld y rhaglen eto fore Gwener ym maes D ac yno hefyd bu merched rhanbarth Meirionnydd yn cyflwyno llyfr o waith Marged, Siabwcho, a droswyd i'r Braille ganddynt yn y rhanbarth, i Gymdeithas y Deillion. Bu'n eisteddfod lwyddiannus, hapus a phrysur i ni fel Mudiad ac mae'n diolch i ferched Rhanbarth Meirionnydd am hynny.

Dyma gyfle nawr i fi i ddiolch am y mwyniant a'r croeso dwi wedi cael gan yr aelodau yn yr holl weithgareddau yma ac am bob cefnogaeth yn y gwahanol fentrau, prosiectau ac ymgyrchoedd gydol y flwyddyn. Erbyn hyn dwi i, fel Mary o'm blaen i, wedi cyd-ddathlu'r deugain gyda sawl cangen yn ogystal â phen-blwydd 30 a 25 canghennau eraill. Mae'n hyfryd cael bod yn rhan o'r dathliadau hyn a byddant yn aros yn hir ar fy nghof. Cefais fynychu llawer o gyfarfodydd ar ran y Mudiad hefyd ac rwyf wedi sylweddoli gymaint yw'r parch i fudiad Merched y Wawr ar draws Cymru

Mae gennym is-bwyllgorau gweithgar a bywiog yn y Mudiad a chanddynt frwdfrydedd cydwybodol wrth drafod materion yn ymwneud a phob gŵyl a digwyddiad, problemau iechyd a phryderon am yr iaith. Mae'r is-bwyllgor cyllid yn cadw golwg ar yr ochr ariannol ac mae aelodau brwd a gweithgar ar y tri is-bwyllgor yma a diolch iddynt am eu hymroddiad. Mae Catrin Stevens, Golygydd y Wawr, ynghyd â phwyllgor y Wawr, yn gwneud gwaith clodwiw hefyd, gan gynhyrchu cylchgrawn y gallwn fod yn falch iawn ohono ac sydd yn gylchgrawn Cymraeg mwyaf ei gylchrediad yn y byd! Penderfynwyd yn y Gwanwyn y byddem yn casglu arian ar gyfer cyhoeddi llyfryn ar gyfer teuluoedd mamau ifanc sy'n dioddef neu'n derbyn triniaeth at gancr y fron gan fod y llyfryn "Mummy's Lump"ar gael yn rhad ac am ddim yn Saesneg oddi wrth Gofal Cancr y Fron Cymru. Gan ddilyn y thema o ailgylchu gofynnwyd i'r canghennau/clybiau/rhanbarthau gynnal ffeiriau ategolion i ariannu'r prosiect a rhoi canran o'r arian a gesglid i'r Mudiad. Cafwyd ymateb gwych ac yna cynigiodd y Clybiau Gwawr gynnal dwy daith gerdded noddedig - un yn y De ac un yn y Gogledd ym mis Mehefin i godi arian i'r ddau achos ac fe godwyd swm sylweddol ganddynt hwy hefyd. Bydd y llyfryn **Lwmp Mam** ar gael yn fuan iawn ac eto yn rhad ac am ddim i bob teulu fydd ei angen.

Yn wyneb yr argyfwng ariannol cyffredinol bu'n rhaid i ni, fel pwyllgor Llywio, edrych yn galed ar sefyllfa ariannol y Mudiad a sylweddoli y byddai diffyg mawr heb fynd ati i chwilio ffynonellau ychwanegol. Roedd llog banc wedi gostwng yn sylweddol a llai lawer o rent defnydd y ganolfan gan fod llai o alw. Gan gofio ein bod yn elusen aethpwyd ati ar unwaith felly i hawlio Cymorth Rhodd ac mae ymateb yr aelodau wedi bod yn galonogol iawn a chyda canran o'r arian a gasglwyd o'r ffeiriau ategolion a'r teithiau cerdded fe wellodd y sefyllfa ariannol yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd rhaid cadw llygad barcud ar hyn eto flwyddyn nesaf. Ond mae'n destun balchder imi ein bod yn fudiad sy'n cyflogi 12 o ferched ac un dyn, ein gofalwr sy'n gweithio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg a phob un yn gweithio'n gydwybodol a diflino i hybu a hyrwyddo amcanion y Mudiad ac yn rhoi gwasanaeth arbennig i'r aelodau.

Daeth yn amser i ffarwelio â dwy aelod o staff ddiwedd y flwyddyn mewn golwg. Ar ôl dwy flynedd fel swyddog hyrwyddo Clybiau Gwawr y gogledd penderfynodd Lowri Rees Roberts

newid gyrfa a throi at ysgrifennu ac mae Malvina Ley wedi ymddeol ‘go iawn’ bellach ar ôl llenwi’r bwlch am flwyddyn ychwanegol fel swyddog datblygu Gorllewin Morgannwg. Diolch i’r ddwy am eu ffyddlondeb a’u cefnogaeth wrth iddynt hyrwyddo a chefnogi canghennau a chlybiau yn eu hardaloedd ac am eu gwasanaeth diflino i’r Mudiad yn genedlaethol. Dymunwn yn dda iddynt.

Hoffwn ddatgan fy niolch i’m cyd-swyddogion cenedlaethol am eu cefnogaeth ac wrth gwrs i holl staff y mudiad am eu cydweithrediad a’u brwdfrydedd. Rhaid son yn arbennig am Eirlys Davies , Malvina Ley a Mim Roberts fu’n paratoi, trefnu a gweithio yn y tairŵyl fawr. Roedd y ffaith fod popeth wedi mynd yn ddidrafferth yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn bennaf oherwydd eu hymroddiad hwy.

Yn olaf hoffwn ddiolch i staff y swyddfa sydd wedi bod mor weithgar yn enwedig pan fu un aelod yn absennol am dri mis wedi triniaeth lawfeddygol. Ar adeg brysura’r flwyddyn fe lwyddodd y tair arall i gadw popeth mewn trefn, ar waetha’r ffaith fod yna lawer mwy nag arfer i’w drafod gyda ffurflenni cymorth rhodd, taith i’r Iwerddon, ffeiriau ategolion ag ati! Maent bob un yn mynd y filltir ychwanegol dros y Mudiad.

Ac mae’n dda gennyf gael y cyfle i ddiolch eto i Tegwen yn benodol- mae’n enghraifft wych o un sydd byth yn gweld dim byd yn broblem - dim ond sialens ydyw! Diolch am ei hegni, ei siriol deb a’i chefnogaeth wrth drefnu a chyfarwyddo’r Mudiad pwysig hwn.

GWEITHGAREDDAU AM Y FLWYDDYN

Penwythnos Preswyl 2008
Cynhaliwyd y Penwythnos Preswyl ar y 19eg i'r 21ain o Fedi 2008 ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan ar y thema "Difyrrwch a Doniau". Croesawyd pawb i'r penwythnos gan ein Llywydd Cenedlaethol, Esyllt Jones. Cafwyd arlwy amrywiol iawn gydol y penwythnos yng nghwmni'r chwiorydd Richards ar y piano a'r sielo, Côr Corisma, Huw Chizwell, byd barddoniaeth yng nghwmni Idris Reynolds a byd rhyddiaith gyda Caryl Lewis. Cafwyd sioe ffasiynau yng nghwmni Rhian Dafydd, perchennog siopau ffasiwn Ji-binc a Jac-do, Kevin Davies yn gosod blodau ar y thema 'Diolchgarwch', a gwasanaeth bore Sul yng ngofal disgyblion Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan. Yn ogystal â hyn trefnwyd gwibdeithiau i Aberaeron, a Chastell Newydd Emlyn. Croesawyd Luned Jones Oxfam atom i lansio ymgyrch y Bras. Gwe-ddarlledwyd y penwythnos, ac rydym yn ddiolchgar i Brifysgol Llanbed am drefnu cwrs gwe-ddarlledu i'r aelodau, ac yn benodol i Geraint Davies am ei gymorth parod.

Cwis Hwyl 2008
Cafodd Cwisiau Cenedlaethol Merched y Wawr eu cynnal ym mhob rhanbarth drwy Gymru gyfan nos Wener 7 Tachwedd 2008, ac er i bawb fynd ati yn ddygn i ateb y cwestiynau dwy gangen a ddaeth i'r brig. Roedd dros 100 o dimau yn cystadlu yn y cwis drwy Gymru a changen Rhiwlas, Rhanbarth Arfon a Changen Pencader, Rhanbarth Caerfyrddin a ddaeth i'r brig ac ennill y £100. Aelodau tîm Cangen Rhiwlas oedd Lynda Jones, Nia Jones, Annes Glyn a Iona Jones ac aelodau tîm Pencader oedd Deci Evans, Sali Jones, Sally Bellamy a Yvonne Griffiths . Yn drydydd roedd Cangen Bro Ilar, Rhanbarth Ceredigion. Aelodau'r tîm oedd Siân Lewis, Ada Evans, Jean Evans a Jane Edwards.

Ffair Aeaf 2008
Ar y 1af ac 2il o Ragfyr bu nifer o staff, swyddogion a gwirfoddolwyr y mudiad yn llafurio'n galed yn y Ffair Aeaf. Roedd safon gwaith cystadlaethau Merched y Wawr yn arbennig, ac mae'n amlwg bod yr aelodau wedi bod yn brysur iawn yn paratoi'r gwaith. Eleni roedd y neuadd arddangos yn werth ei gweld gyda nifer o gacennau ffrwythau, ffotograffau a thorchau ar gyfer y Nadolig yn addurno'r lle i gyd, a phawb yn ceisio ac yn gobeithio am y wobr gyntaf. Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr am sicrhau cystadleuaeth o'r safon uchaf bosibl. Dyma'r canlyniadau:
Cacen Ffrwythau
1af: Ann Owen, Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn Powys, 2ail: Eiriola Williams, Cangen Bro Tryweryn, Rhanbarth Meirionnydd, 3ydd: Meinir Lloyd Lewis, Cangen Harlech, Rhanbarth Meirionnydd.
Torch ar gyfer y Nadolig: 1af: Jaqui O'Sullivan, Cangen Llannau'r Tywi, Rhanbarth Caerfyrddin**,** 2ail: Llinos Roberts, Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn**,** 3ydd: Ann Richards, Clwb Gwawr Llangadog, Rhanbarth Caerfyrddin.
Ffotograffiaeth – 'Merched wrth eu gwaith': 1af: Grace Birt, Cangen Abertawe, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg**,** 2ail: Janice Hughes, Cangen Capel Newydd, Rhanbarth Penfro**,** 3ydd: Bethan Jones, Clwb Gwawr Y Gwyniaid, Rhanbarth Meirionnydd.

Cyrsiau Crefft y De a'r Gogledd 2009
Daeth nifer dda o aelodau ynghyd i Gwrs Crefft y De a'r Gogledd a gynhaliwyd yn Llwyngwair, Penfro ar Ionawr 17eg, ac ym Mhlas Isaf, Corwen ar Ionawr 31ain. Cynigwyd dewis o dri cwrs, Gwaith procer poeth, sef llosgi defnydd, Cardiau, a Chyffeithiau, a'r tiwtoriaid oedd Llinos Roberts, Winnie James, Mim Roberts a Mary Mars Lloyd. Cafodd pawb fwynhad mawr a chynhyrchwyd llawer o waith gwych.

Cinio'r De 2009
Cynhaliwyd Cinio'r De ar y 4ydd o Ebrill yng ngwesty Manor Park, Clydach. Nia Roberts oedd y siaradwraig wadd, a chafwyd araith ddifyr a phwysig iawn ganddi. Cafwyd adloniant arbennig gan Einir Dafydd a Dafydd Jones. Clwb Gwawr Dyffryn Aman, Rhanbarth Caerfyrddin enillodd darian Tegwen Morris am gynnydd aelodaeth roeddent wedi denu 14 aelod newydd, Cangen Abernant, Rhanbarth Caerfyrddin yn ail gyda 12 aelod newydd a Changen y Garth, Y De Ddwyrain yn drydydd gyda naw aelod newydd.

Cinio'r Gogledd 2009
Wythnos yn ddiweddarach ar 11 Ebrill, cynhaliwyd Cinio'r Llywydd yn y Gogledd yng ngwesty Oriel House, Llanelwy. Rhun ap Iorwerth, y darlledwr oedd y siaradwr gwadd, a chafwyd anerchiad diddorol ganddo. Darparwyd adloniant bendigedig gan Steffan Hughes ac Angharad Rowlands i gyfeiliant Leah Owen. Cangen Dolgellau enillodd y darian am gynnydd aelodaeth gyda 8 aelod newydd, Cangen Llanddoged, Rhanbarth Aberconwy, ddaeth yn ail gyda 7 aelod, a Changen Llandegfan, Rhanbarth Môn yn drydydd gyda 6 aelod newydd.

Gŵyl Haf Machynlleth 2009
Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol yn Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi Machynlleth ar ddydd Sadwrn 16 Mai 2009. Roedd y bore wedi ei neilltuo i'r cyfarfod blynyddol, a'r wraig wadd oedd Ann Beynon o B.T. Llywyddwyd y cyfarfod gan Esyllt Jones.

Gofynnwyd i Ann Beynon edrych drwy ôl-rifynnau cylchgrawn Y Wawr a dewis un erthygl a oedd yn denu ei sylw a'i ddiddordeb. Roedd Helen Jones yr enillydd wedi ysgrifennu erthygl am "Wragedd Dewr yn Ushindi". Ann Davies ac Anna ap Robert fu'n beirniadu'r cystadlaethau adloniant.

Dyma restr o'r buddugwyr :
Gwobr Patagonia am yr erthygl "Gwragedd Dewr yn Ushindi" Rhifyn Haf 2008: Helen Jones, Madrid, Sbaen;
Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn Nadolig 2009: Mona Morris, Cangen Abergele, Rhanbarth Colwyn Shelagh M. Jones, Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion**,** Siân Foulkes, Cangen Llanfair Caereinion, Rhanbarth Maldwyn Powys a Glenys Morris, Cangen Llangwyryfon, Rhanbarth Ceredigion;
Cwis Hwyl Cenedlaethol: Cydradd 1af: Cangen Pencader, Rhanbarth Caerfyrddin a Changen Rhiwlas, Rhanbarth Arfon, 3ydd Cangen Bro Ilar, Rhanbarth Ceredigion;
Nwydd Newydd: 1af: Ann Richards, Clwb Gwawr Llangadog, Rhanbarth Caerfyrddin, 2il: Monica Evans, Cangen Afan, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg, 3ydd: Esyllt Jones, Cangen Gorseinon, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg;
Ail-gylchu'r Wawr: 1af: Llinos Roberts, Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn, 2il Llinos Roberts, Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn, Cydradd 3ydd: Aeres James, Cangen Trefdraeth, Rhanbarth Penfro ac Ann Richards, Clwb Gwawr Llangadog, Rhanbarth Caerfyrddin.
Cystadleuaeth Sgets/Cyflwyniad/Cân 'Bro a Bra': 1af: Cangen Y Bryniau, Rhanbarth Ceredigion, Cydradd 2il: Cangen Gorseinon, Rhanbarth Gorllewin Morgannwg a Changen Llanrhaeadr ym Mochnant, Rhanbarth Maldwyn-Powys, Cydradd 3ydd: Cangen Abergele, Rhanbarth Colwyn a Changen Y Fenni, Rhanbarth Y De-ddwyrain.
Cystadleuaeth Dawnsio Greadigol: 1af: Cangen Dinbych a'r Cylch, Rhanbarth Glyn Maelor
Cystadleuaeth y Dysgwyr: Ysgrifennu Dyddiadur wythnos: 1af: Flo Brady, Cydradd 2il: Alison Coleman a Sally Carr, Cydradd 3ydd: Fiona Collins a Sue Michaels. **Creu cerdyn cyfarch doniol:** 1af: Susan Cain, 2il: Denise Murtha, 3ydd: Sheila Roberts. **Sgwrs ar dâp:**

1af: Jackie Jennings yn sgwrsio gyda Cath Williams, 2il: Rosemary Smyth yn sgwrsio gyda Cath Williams, 3ydd: Shirley Williams yn sgwrsio gyda Rhiannon Davies.
Dominos:1af: Cangen Trawsfynydd, Rhanbarth Meirionnydd, 2il: Cangen Chwilog, Rhanbarth Dwyfor, 3ydd: Cangen Penygroes '2' Rhanbarth Arfon.
Bowlio: 1af: Cangen Tregaron, Rhanbarth Ceredigion, 2il: Cangen Bro Alma, Rhanbarth Caerfyrddin.
Dartiau: 1af: Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn-Powys, 2il: Cangen Tegryn, Rhanbarth Penfro, 3ydd: Cangen Trawsfynydd, Rhanbarth Meirionnydd.
Badminton: 1af: Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn-Powys, 2il: Cangen Mawddwy, Rhanbarth Meirionnydd.
Gyrfa Chwist Cymar: 1af: Cangen Llaniestyn, Rhanbarth Dwyfor, 2il: Cangen Tegryn 'B', Rhanbarth Penfro, Cydradd 3ydd: Cangen Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhanbarth Glyn Maelor a Changen Mynytho, Rhanbarth Dwyfor.
Golff: 1af: Doreen Jones, Cangen Aberystwyth, Rhanbarth Ceredigion, 2il: Rhian Roberts, Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn-Powys, 3ydd: Iona Wyn Roberts, Cangen Pwllheli, Rhanbarth Dwyfor.
Sboncen: 1af: Eryl Thomas, Clwb Gwawr Tanat, Rhanbarth Maldwyn-Powys, 2il: Nia Llywelyn, Clwb Gwawr Glyndwr, Rhanbarth Maldwyn-Powys.
Sgrabl Cymraeg: 1af: Cangen Abersoch, Rhanbarth Dwyfor, 2il: Cangen Y Bryniau, Rhanbarth Ceredigion, 3ydd: Cangen Felinfach a'r Cylch, Rhanbarth Ceredigion.
Tenis Bwrdd: 1af: Tîm Rhanbarth Glyn Maelor, 2il: Cangen Llanfyllin, Rhanbarth Maldwyn-Powys, 3ydd: Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn-Powys.
Dewis Dau Ddwrn: 1af: Cangen Henllan, Rhanbarth Colwyn, Cydradd 2il: Cangen Bro Ddyfi, Rhanbarth Maldwyn-Powys a Changen Cylch Wyre, Rhanbarth Ceredigion.

Taith i Ddulyn
Trefnwyd taith genedlaethol i Ddulyn ym mis Mehefin. Teithiodd un bws o'r gogledd ac un arall o'r de a chwrdd yng ngwesty'r Talbot, Carlow ger Dulyn. Bu bws y gogledd yn y gerddi Siapaneaidd a'r Fridfa Ceffylau Cenedlaethol, a chafodd bws y de amser ychwanegol i siopa ar y Sul.

Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy 2009
Cafwyd Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus iawn ym Mae Caerdydd. Trefnwyd arddangosfa ddeniadol o fras a theis enwogion Cymru. Ar y dydd Mercher cyflwynodd rhanbarth y De-Ddwyrain gopi Braille o 'Hoff Gerddi Cymru' i Ysgol Gyfun Plas-mawr. Bu prysurdeb mawr gydol yr wythnos, ac rydym yn ddiolchgar i Eirlys Davies, Swyddog Datblygu, a swyddogion ac aelodau rhanbarth y De-Ddwyrain am eu gwaith bendigedig.

Teithiau Cerdded Cancr y Fron
Ar Fehefin 13eg trefnwyd teithiau cerdded yng Nghanolfan Cywain y Bala ar gyfer aelodau Clybiau a Changhennau'r Gogledd, ac ym Mharc Gwledig Penbre ar gyfer Clybiau a Changhennau'r De. Y nod oedd codi arian ar gyfer gofal Cancr y Fron Cymru ac i'r mudiad. Bwriedir defnyddio'r arian a godwyd tuag at Gancr y Fron i ariannu cyfieithiad Cymraeg o'r stori *Mummy's Lump* sef *Lwmp Mam* a ddosberthir i deuluoedd pan fo mam ifanc yn cael diagnosis o gancr y fron.

Sioe Llanelwedd 2009
Bu aelodau rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn paratoi arddangosfa hyfryd o grochenwaith Morgannwg sy'n cwmpasu Nant Garw, Abertawe, Ynys Meudwy ac Ewenni. Bu canmol mawr i'r gwaith arbennig yma gydol yr wythnos, ac rydym yn ddiolchgar i Malvian Ley ac aelodau'r rhanbarth am eu gwiath caled. Bu ymateb da i'r ddwy gystadleuaeth, a rhaid llongyfarch Rhanbarth Ceredigion ar ennill Cystadleuaeth Cwpan Radi Thomas, Rhanbarth

Gorllewin Morgannwg a ddaeth yn ail, a Rhanbarth Meirionnydd a ddaeth yn drydydd. Llongyfarchiadau hefyd i Lilwen Thomas, Rhanbarth Caerfyrddin ar ennill y gystadleuaeth gosod blodau ar y thema 'Abertawe'n Fflam, ac i Gwyneth Davies, Rhanbarth Ceredigion a ddaeth yn ail a Gill Owen, Rhanbarth Maldwyn Powys a ddaeth yn drydydd. Da iawn i chi gyd.

Eisteddfod Genedlaethol Bala 2009
Cychwynnodd digwyddiadau Merched y Wawr yn Eisteddfod Bala gyda digwyddiad pwysig sef dadorchuddio plac y Capsiwl Amser yng Nghanolfan Cywain. 'Y Dechreuadau' oedd thema cyflwyniad graenus rhanbarth Meirionnydd ar lwyfan y pafiliwn dydd Mercher gyda 160 o aelodau yn cymryd rhan. Sgriptiwyd a chynhyrchwyd y cyflwyniad gan Mair Penri. I gwblhau gweithgareddau'r dydd, bu llawer iawn o'r aelodau yn Y Babell Lên i wrando ar Eiry a Lisa Palfrey a Mererid Jones yn gwneud cyflwyniad i gofio'r diweddar Marged Lloyd Jones, cyn Lywydd Anrhydeddus y Mudiad. 'Aur, Llechi a Gwlân' oedd thema'r arddangosfa, a bu aelodau a swyddogion y mudiad yn brysur drwy'r wythnos yn paratoi paned i'r holl ymwelwyr. Diolch i Mim Roberts a chriw Meirionnydd am eu gwaith bendigedig. Cafwyd stondin brysur a bywiog gyda gwirfoddolwyr gwych hefyd ym Mhabell y Dysgwyr.

Y Wawr
Cyhoeddwyd 4 rhifyn graenus o gylchgrawn *Y Wawr* o dan lywyddiaeth Catrin Stevens, y Golygydd. Diolchwn i'r pwyllgor cyfan am gydweithio yn hapus i sicrhau cylchgrawn diddorol bedair gwaith y flwyddyn. Cydnabyddir gyda diolch y nawdd a dderbynnir gan Gyngor Llyfrau Cymru sy'n cynorthwyo gyda chostau argraffu *Y Wawr*.

Y Ganolfan Genedlaethol
Eleni eto croesawyd nifer o ganghennau a chlybiau ar ymweliadau â'r Ganolfan yn Aberystwyth a braf ydyw dweud fod nifer o grwpiau a mudiadau yn defnyddio'r Ganolfan. Mae Gwasg Honno bellach wedi symud o'r Ganolfan ac mae swyddfa ar gael i'w llogi.

Staff
Ffarweliwyd a Lowri Rees Roberts, Swyddog Clybiau Gwawr y Gogledd a Malvina Ley, Swyddog Datblygu Gorllewin Morgannwg. Trist yw cofnodi marwolaeth Mena Jones a fu'n swyddog datblygu'r gogledd am nifer o flynyddoedd.

ADRODDIADAU'R RHANBARTHAU

RHANBARTH ABERCONWY

Urddwyd Alma Dauncey Roberts yn Llywydd Rhanbarth ar ddechrau tymor newydd a derbyniwyd cefnogaeth arferol ein Llywydd Anrhydeddus, Mari Roberts. Gwnaethpwyd cwilt arbennig gan aelodau o gangen Llandudno ar gyfer raffl a'r elw ŷ D Gobaith. Pleser oedd cefnogi'r gweithgaredd fel rhanbarth.

Mae'r noson Bowlio Deg yn cynyddu mewn poblogrwydd ond mae gen i fy amheuon yn enwedig pan gyflwynodd Mim y wobr gysur i gangen Carmel! Buom yn lwcus o gael ein hyfforddi gan Mim mewn cwrs addurniadau a chwrs bocsys yn ystod y tymor. Braf oedd cael un tîm ar hugain yn cystadlu yn y Cwis Hwyl ac yn ymuno i gael bwyd i ddilyn.

Dechreuir Gŵyl y Nadolig yn Aberconwy gyda Gwasanaeth Carolau'r rhanbarth. Crëwyd awyrgylch arbennig dan arweiniad Rhiannon Ifan a chyfeiliant Heulwen Morris yng Nghapel Seion, Llanrwst. Cymerwyd rhan gan ganghennau Eigiau, Glan Conwy a Henryd.

Gwelir cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu'r Ysgol Undydd a gynhelir ar Sadwrn cyntaf Chwefror, a daeth mwy o wirfoddolwyr o'r canghennau hefyd i sgwrsio gyda'r dysgwyr yn y prynhawn. Mwynheir ein Noson Chwaraeon yn Eglwysbach ond ni chafwyd cystadleuwyr i'r ŴyI Haf eleni. Mynychodd cynrychiolaeth dda Ŵyl y Pum Rhanbarth ym Mangor a'i mwynhau yn fawr.

Bu ein Ffair Haf yn Nhalybont yn llwyddiant arbennig unwaith eto a phleser oedd croesawu ein Is-lywydd Cenedlaethol, Mererid Jones i agor y noson. Cafwyd Arddangosfa Goginio gan Hybu Cig Cymru. Llongyfarchiadau i'r aelodau a fu'n cystadlu yn Sioe Llanelwedd a chafwyd cystadlu brwd hefyd ar gystadlaethau Merched y Wawr yn Sioe Llanrwst. Roedd y cynnyrch yn werth eu gweld.

Balch oeddem o weld cangen Llanddoged yn derbyn tystysgrif yng Nghinio'r Llywydd yng Ngwesty'r Oriel am wneud cynnydd o saith aelod yn eu cangen. Dyma'r hyn y gobeithiwn gael mwy ohono.

Roedd pawb yn awyddus i gyfrannu at gyfraniad y rhanbarth i'r Capsiwl Amser, ac roedd y Swyddogion yn bresennol yn y seremoni yng Nghanolfan Cywain yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala. Mwynhawyd cyflwyniad rhanbarth Meirionnydd ar lwyfan yr eisteddfod ddydd Mercher ac amgylchynu'r pafiliwn gyda'r 'bras'. Cofiadwy fu'r cyflwyniad i Gofio Marged. Llongyfarchiadau i ganghennau Eglwysbach a Charmel ar 'ddathlu'r deugain'.

Parhawn i dapio'r Papurau Bro, Yr Odyn a'r Pentan ar gyfer y deillion, ond dangoswn gonsyrn am y gefnogaeth i'r gwasanaeth ar hyn o bryd.
Diolch am gymorth aelodau a swyddogion y rhanbarth ac i Mim, ein swyddog datblygu am ei chefnogaeth bob amser.

RHANBARTH ARFON

Blwyddyn lewyrchus a phrysur fu'r flwyddyn o 2008 - 2009 i ranbarth Arfon. Adeiladwyd ar lwyddiannau'r gorffennol a'u hymestyn o dan arweiniad diguro ein swyddog datblygu sef Mim Roberts.

Un o'n huchafbwyntiau yn y flwyddyn a aeth heibio oedd i gangen y Rhiwlas ger Bangor ddod yn gydradd gyntaf gyda changen Pencader yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol. Gair

allweddol y noson oedd hwyl, ac roedd i un o'n canghennau ddod yn gyntaf yn coroni'r noson.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn bu raid i aelodau o'r Is-bwyllgor anabl hepgor dwy awr dda o'u sŵn a siarad arferol er mwyn cyflawni eu gweithgaredd blynyddol o ddistawrwydd noddedig. Y canlyniad oedd codi swm anrhydeddus dros ben o £2,850 at elusen ddewisol. Eleni aeth yr arian i Ysgol Pendalar, Caernarfon, ysgol a symudodd ym mis Medi 2008 i safle newydd ac sy'n parhau i fod angen cryn gyfalaf i ddarparu gwasanaeth holl bwysig i blant Arfon sydd ag anabledd.

Un o'r is-bwyllgorau mwyaf bywiog gennym yw'r un Celf a Chrefft. Bu noson eithriadol o ddifyr yn y Groeslon ger Caernarfon ym mis Mai. Dyma hefyd pryd y barnodd yr awdures Mrs. Brenda Wyn Jones mai llyfr lloffion cangen Llanrug oedd y gorau yn Arfon eleni. Ym mis Ebrill llenwyd bws i fynd i Aintree i ffair grefft. Wedi cyrraedd siarsiodd y dreifar iddynt gofio bod y bws yn hen ddigon llawn yn barod rhag ofn i'r merched fynd yn wallgof, wrth i bres losgi yn eu pocedi.

Poblogaidd ymysg y dysgwyr yn ein cymuned eleni eto oedd yr ysgol undydd a drefnwyd gan Ferched y Wawr yn ein rhanbarth. Yn bresennol roedd nifer helaeth o ddysgwyr ar wahanol lefelau ac yn ddigon i gadw nifer o aelodau yn brysur iawn drwy gydol un prynhawn Sadwrn arbennig ym mis Tachwedd llynedd.

Chwaraeon sydd at ddant rhai, a bu'r cyfleoedd yna eto i ambell un serennu, a hynny yn neuadd bentref Penisarwaen ger Llanberis, lle cawsom noson ddifyr o gystadlu cyfeillgar ganol mis Ebrill. Parc Glasfryn ger Pwllheli oedd ein cyrchfan i'r Bowlio Deg ac er gwaetha holl ymdrechion ein sêr rhanbarthol canghennau'r Groeslon, Llanrug a Chlwb Gwawr Glannau Llyfni, yn anffodus yn y diwedd bu raid i ni gydnabod goruchafiaeth rhanbarth Meirionnydd yn y gamp hon.

Eleni eto bu'r rhanbarth yn westai i Meirion Dwyfor, Môn a Chonwy ym mis Mai. Mawr oedd y gwledda a difyr yr adloniant yng Ngŵyl Fai y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars Bangor, a'r trefniadau ar y gweill i ddifyr gwrdd â hen gyfeillion eto'r flwyddyn nesaf.

Fel pob rhanbarth bywiog nid yw ein golygon wedi bod yn blwyfol yn unig. Ymunwyd gydag arddeliad mewn gweithgareddau cenedlaethol - cyfrannu a chladdu'r capsiwl yn Eisteddfod y Bala, gwibdaith i'r Ynys Werdd, heb sôn am gasglu'r Bras. Yn wir dywedodd ein hysgrifenyddes Ann Elis nad oedd hi na'n Trysorydd Gwyneth Jones fyth eisiau gweld unrhyw fra eto, bach neu fawr - heb iddynt siarad yn bersonol wrth gwrs!

Edrychwn ymlaen yn hyderus at flwyddyn hwyliog, brysur a phwrpasol eto yn 2009/2010.

RHANBARTH CAERFYRDDIN

Dechreuodd Medi 2008 gyda chyffro tymor newydd. Roeddem wedi sylweddoli bod 40 mlynedd o bwyllgora o fewn Rhanbarth Caerfyrddin yn 2009, a rhaid oedd 'dathlu' mewn steil fel yr awgrymodd yr ysgrifenyddes gyntaf, Mrs Enid Jones, sydd yn awr yn Lywydd Anrhydeddus i ni yma. Bu cryn drafod ac yn y diwedd cytunwyd ar gael cyngerdd gyda Rhys Meirion yn ein swyno a Chôr Rhuthun yn ei gefnogi ar Fai 9fed. Gwahoddwyd Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg atom yn Llywydd. Roedd pum cangen hefyd yn dathlu'r deugain y tymor hwn. Er coffâd o weithgarwch ein rhanbarth fe roddwyd llyfryn bach at ei gilydd i ddangos baneri ein canghennau a hanes eu dechreuad, ynghyd â'r Clybiau Gwawr i'w gladdu yn y Capsiwl Amser Cenedlaethol yn Eisteddfod y Bala. Gwnaethom ein rhan yn

casglu cannoedd o 'fras' tuag at yr apêl Genedlaethol i fudiad Oxfam ac amgylchynu'r Pafiliwn ar faes yr Eisteddfod.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhanbarth yn ystod y flwyddyn yn Ysgol Gynradd Nantgaredig dan lywyddiaeth Haulwen Booth. Derbyniodd Gangen Abernant a Chlwb Gwawr Rhydaman dystysgrif am gynnydd mewn aelodaeth.

Yng nghyfarfod Medi newidiwyd swyddogion ac felly newid enwau ar y cyfrif banc. Dyna pryd y daeth yn amlwg nad oes gan Fanc Lloyds ffurflenni dwyieithog ar gyfer pob sefyllfa a bu cryn lythyru â hwy i gwyno am y ffaith.

Yng nghyfarfod Tachwedd daeth Lis Fidler atom i sôn am gronfa goffa a sefydlwyd er cof am Sera Leyshon. Bu Sera Leyshon yn gadeirydd ac ysgrifennydd i ni ac yn weithgar dros Ferched y Wawr. Collodd ei bywyd yn ifanc drwy glefyd cancr y fron. Mae'r gronfa yn rhoi cefnogaeth ariannol i unigolion neu grwpiau o bobl ifanc sydd yn weithgar yn eu cymunedau. Mis Chwefror daeth yr eira a gorfod symud y noson gyfarfod. Daeth Morus Gruffudd o gwmni Iaith Cyf, Castell Newydd Emlyn atom i sôn am waith peilot Cynllun 7/Iaith. Mynegwyd pryderon aelodau bod y Llyfrgell Genedlaethol i gau drysau ar y Sadyrnau o Ebrill ymlaen ac anfonwyd i gwyno. Anogwyd pob cangen i anfon llythyrau protest am yr enw swyddogol fydd i'r Ganolfan Siopa newydd sydd ar waith yng Nghaerfyrddin. Rhyfedd deall mai gan y Datblygwyr y mae'r hawl i enwi! Bu llythyru hefyd gyda'r Cyngor Sir a Chyngor Tref yn cwyno am y diffyg arwyddion dwyieithog yn y farchnad newydd yng Nghaerfyrddin. Tynnwyd ein sylw hefyd nad oes siaradwyr Cymraeg ar ben arall y ffôn bob amser gan yr Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Bu cyfarfod rhanbarth arall ddiwedd Ebrill. Diolchodd Haulwen Booth, y llywydd i holl staff Swyddfa Aberystwyth am yr holl drefniadau Cenedlaethol.

Roeddem yn falch iawn bod cangen Pencader wedi dod yn gyfartal gyntaf yng nghystadleuaeth y Cwis Hwyl Cenedlaethol, a bod Ann Richards, Clwb Gwawr Llangadog wedi cael dwy wobr yn yr Wyl Haf a changen Bro Alma yn ail ar y bowlio. Clod arall i'r rhanbarth oedd i Lilwen Thomas, San Clêr ennill cystadleuaeth gosod blodau 'Abertawe'n Fflam' yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Cynhaliwyd Dydd Rhyngwladol y Merched (dan nawdd y Cyngor Sir) yng Nghaerfyrddin a bu stondin Merched y Wawr yno. Cynhaliwyd Sioe Archif Menywod hefyd a chyfle eto i Ferched y Wawr gael hysbysrwydd drwy wneud te. Cynhaliwyd Ysgol Undydd Celf a Chrefft gan ein Is-bwyllgor a threfnwyd Noson Goffi a chynnal cystadlaethau celf a chrefft a gosod blodau gogyfer â mynd i gystadlu i'r Sioe Fawr. Dyna yn fras ein hanes ni'r tymor hwn.

RHANBARTH CEREDIGION

Ar ddechrau'r tymor sefydlwyd Clwb Gwawr Bro'r Barcud yn ardal Tregaron ac mae'n mynd o nerth i nerth. Unwaith eto cafwyd ymateb da i weithgareddau'r rhanbarth. Dechreuwyd efo'r Cwis Hwyl gyda 28 o dimoedd yn cystadlu. Cangen Bro Ilar enillodd yn Rhanbarthol a daethant yn 3ydd yn Genedlaethol. Bu tair noson o gystadlu brwd ar y chwaraeon yn y Llew Du yn Llanbedr Pont Steffan a chafwyd tipyn o hwyl yn Wyl Haf ym Machynlleth lle daeth cangen Y Bryniau yn fuddugol ar y gystadleuaeth 'Bro a Bra', Shelagh Jones, cangen Aberystwyth a Glenys Morris, cangen Llangwyryfon yn ennill ar gynllunio cerdyn Nadolig 2009. Yn y chwaraeon daeth cangen Tregaron ar y brig yn y Bowlio a Doreen Jones, cangen Aberystwyth yn ennill ar y Golff. Daeth cangen Cylch Wyre yn gydradd ail yn Dewis Dau

Ddwrn; cangen Y Bryniau yn ail a changen Felinfach a'r Cylch yn drydydd yn y Sgrabl Cymraeg. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Trefnwyd Cwis 'Adnabod Bro' i godi arian i'r rhanbarth, cafwyd dau gwestiwn gan bob cangen/clwb i greu cwis diddorol.

Cyflwynwyd Tarian Mair Kitchener Davies i gangen Aberporth, cangen Bronnant a chlwb gwawr Glannau Teifi am ddod yn gyfartal ar ddenu'r nifer fwyaf o aelodau i'w cangen/clwb.

Yn yr Ŵyl Fai yn Aberaeron enillwyd Tarian Celf a Chrefft y rhanbarth am y pwyntiau uchaf gan gangen Llanfarian, gyda changhennau Cylch Teifi yn ail a Chylch Wyre a Bronnant yn gydradd drydydd. Gwyneth Davies, cangen Talgarreg aeth ymlaen i'r sioe yn Llanelwedd i gystadlu ar y gosod blodau 'Abertawe'n Fflam' a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth. Enillwyd Cwpan Radi Thomas yn Sioe Llanelwedd gan ranbarth Ceredigion.

Cyfraniad Ceredigion i'r 'Capsiwl' oedd rhoi'r rhaglenni'r rhanbarth i gyd yn y bocs. Gwerthfawrogwn yn fawr gefnogaeth a chynhorthwy ein Swyddog Datblygu, Elizabeth Evans yn ystod y flwyddyn.

RHANBARTH COLWYN

Yn ystod tymor 2007/2008 penderfynwyd yn y Pwyllgor Rhanbarth mai da o beth fuasai cael swyddogion o hyn ymlaen, o'r un gangen er mwyn hwyluso trefnu gweithgareddau yn rhanbarthol. Enwyd Abergele i ddechrau ar y system newydd, a chan fod tair aelod yn bresennol eisoes penodwyd hwy yn swyddogion am y cyfnod 2008/2010 sef - Llywydd - Mererid Jones, Ysgrifennydd - Bethan Roberts; Trysorydd - Bet Thomas.

Yn fuan iawn wedyn etholwyd Mererid Jones yn Is-lywydd Cenedlaethol, a balch iawn oeddem yn y rhanbarth o'i anrhydedd, ond rhaid oedd chwilio am swyddog newydd yn ei lle. Wedi hir fyfyrio dros y cais, penderfynodd Meirwen Hughes ymuno gyda'i ffrindiau gan y gwyddai y gallent gyd-weithio yn hapus iawn.

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ac rydym wedi magu hyder wrth gael cefnogaeth a chydweithrediad gan yr aelodau sy'n dod i bob pwyllgor. Yn wir mae'r cyfartaledd presenoldeb wedi bod yn dda iawn ar hyd y flwyddyn.

Cafwyd cyfarfodydd amrywiol yn ystod y flwyddyn gan ddechrau gyda noson y Cwis Hwyl; Noson hwyliog gyda 19 o dimau yn cystadlu. Cangen Prestatyn ddaeth i'r brig yn rhanbarth Colwyn.

Bu'r Noson Garolau oedd wedi ei threfnu gan Anwen Williams, ein swyddog datblygu yn gartrefol a bendithiol iawn gyda'r casgliad yn mynd tuag at 'Cŵn tywys i'r dall'. Mwynhaodd pawb baned a mins pei a sgwrs ar y diwedd.

Trefnodd Mim Roberts noson 'Bowlio Deg' yn Llandudno ar ein cyfer. Bu cystadlu brwd a hwyliog rhwng y timau a'r buddugwyr yn mynd ymlaen i Glasfryn ger Pwllheli yn y flwyddyn newydd i gystadlu yn erbyn rhanbarthau eraill yn y Gogledd Orllewin. Roedd pawb yn cytuno fod hyn yn syniad da ac yn rhoi cyfle inni gwrdd a sgwrsio ag aelodau o ranbarthau eraill.

Daeth Ebrill 11eg ac roedd hi'n ddiwrnod hynod o braf i bawb deithio i Ŷ Oriel, Llanelwy i rannu ym mwyniant 'Cinio'n Llywydd Cenedlaethol'. Rhanbarth Colwyn oedd yn croesawu

Esyllt Jones a'r holl aelodau, a chafwyd pryd da o fwyd. Rhun ap Iorwerth oedd y gŵr gwadd a chafwyd adloniant gan Steffan Rhys ac Angharad Rowlands i gyfeiliant eu hathrawes Leah Owen. Diwrnod da iawn.

Mis Mai cawsom ein Gŵyl Ranbarth yn Llansannan a daeth Côr Bro Gwerfyl i'n diddanu dan arweiniad Margaret Edwards. Noson o ganu amrywiol a gawsom gydag ambell i stori a sgets ddoniol a digon o chwerthin. Cafodd pawb luniaeth a sgwrs i orffen y noson.

Bu cryn baratoi at Ŵyl Haf ym Machynlleth a chystadlu brwd yn y gwahanol gystadlaethau. Daeth cangen Henllan i'r brig yn 'Dewis Dau Ddwrn', Mona Morris gyda'i cherdyn Nadolig, Cath Williams gyda'r dysgwyr a Llinos Roberts, ein Is-lywydd yn sicrhau 1af ac 2ail wrth 'greu eitem allan o hen rifynnau o'r 'Wawr'.

Gŵyl a Hamdden

Cafwyd tri chwrs yn ystod y flwyddyn -

- Arlunio a phaentio ar y testun 'Môr a Mynydd'
- Cwrs ar y testun 'Blodau i'r cartref'
- Cwrs gosod blodau ar ddiwedd Mehefin a chystadlaethau Sioe Llanelwedd yn cael eu beirniadu.

Roedd y noson Gelf a Chrefft yma yn hynod o lwyddiannus ac yn dangos medrusrwydd aelodau'r rhanbarth. Yn dilyn hyn roedd y buddugwyr yn cyfarfod i baratoi arddangosfa gogyfer â Sioe Llanelwedd ac roedd yr arddangosfa yn ddeniadol dros ben.

Yn ôl ein harfer bu paratoi pabell Merched y Wawr yn Sioe Dinbych a Fflint. Pabell sy'n llawn bwrlwm bob blwyddyn ac arddangosfa wych o waith yr aelodau i'w gweld ac wrth gwrs cyfle i gael paned a chacen gri.

Pleser oedd i Bethan, Bet a minnau fynd i Ysbyty Glan Clwyd i weld y paneli hardd a baratowyd gan Llinos Roberts, Ann Jones a'u tîm. Ynddynt gwelir gwaith cywrain a manwl iawn. Maent yn werth eu gweld yn adran cancr yr ysbyty a chânt eu cyflwyno fod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cleifion.

Bu'r tair ohonom yng Nghanolfan Cywain yn Y Bala pan gladdwyd y capsiwl amser. Roedd pob cangen wedi paratoi braslun yn olrhain ei hanes yn ystod y deugain mlynedd aeth heibio. Sgwn i pwy fydd yma 'mhen can mlynedd' yn eu darllen a beth fyddant yn feddwl o'n cyfnod ni ar y ddaear yma!

Chwaraeon

Trefnwyd dwy noson o gemau a'r buddugwyr wedyn yn cystadlu yn Ŵyl Haf ym Machynlleth. Nosweithiau cymdeithasol ydynt a gwahanol ganghennau yn paratoi lluniaeth a gofalu am raffl i godi arian i gynnal y gwahanol weithgareddau.

Iaith a Gofal

Cynhelir dau 'Sadwrn Siarad' i'r dysgwyr bob mis yn Llansannan dan ofal Cath Williams, Haf Roberts a'r gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ac mae ambell i gangen gyda dysgwyr yn aelodau. Mae rhai canghennau yn cynnal noson arbennig i ddysgwyr yr ardal, gan eu hannog i ddod i gael blas ar nosweithiau eraill yn ystod y flwyddyn ac wedyn, efallai ymaelodi. Mae'r rhanbarth yn trefnu tapio'r Gadlas, papur bro lleol bob mis i'r deillion, a mawr yw ein diolch i'r rhai sy'n gyfrifol am y peiriannau a'r darllenwyr.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur yn y rhanbarth ac mae'n diolchgarwch i'r aelodau hynny sy'n barod i ymgymryd â swyddi ac ysgwyddo'r gwaith yn ddirwgnach. Diolch am eich

cefnogaeth o'r canghennau, ein swyddog datblygu, Anwen Williams, Tegwen a'r staff yn Aberystwyth. 'Mewn undeb mae nerth'.

RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

Dan lywyddiaeth Elenid Jones, cafwyd blwyddyn arall ddifyr yn Rhanbarth y De-ddwyrain. Diolch hefyd i Eirlys Davies, ein Swyddog Datblygu, am ei gwaith diflino yn ystod y flwyddyn. Y Rhanbarth fu'n gyfrifol am dapio rhifyn Hydref y Wawr ar gyfer y deillion.

Cynhaliwyd y Cwis Hwyl nos Wener, 7fed Tachwedd, a chafwyd noson lwyddiannus iawn unwaith eto, gyda rhyw 12 tîm yn cymryd rhan. Braf oedd cael croesawu tîm o Glwb Gwawr Caerdydd am y tro cyntaf. Darparwyd bwyd gan y pwyllgor.

Cawsom noson hyfryd iawn ar 1af Rhagfyr pan ddaeth rhyw 120 o ferched y rhanbarth i'r Gwasanaeth Nadolig a drefnwyd gan gangen Y Garth. Casglwyd dros £300 tuag at Gymdeithas Syndrom Down.

Ar Ebrill 4ydd aeth nifer o aelodau'r rhanbarth i ginio'r Llywydd yn y De a gynhaliwyd yng Ngwesty Manor Park, Clydach. Cyflwynwyd tystysgrif i Gangen y Garth am ddod yn 3ydd am gynyddu'r aelodaeth.

Trefnwyd Noson Goffi'r rhanbarth gan gangen Y Bontfaen, nos Wener, 8fed Mai. Daeth y Llywydd Cenedlaethol, Esyllt Jones ynghyd â Luned, ei merch, sydd yn gweithio i OXFAM atom, a chafwyd sgyrsiau difyr gan y ddwy. Roedd tua 100 o aelodau wedi mynychu'r noson, a llwyddwyd i gasglu 1000 o fras, a gwneud elw o £274. Codwyd £76 ar y stondin Ategolion, tuag at addasu *Mummy's Lump*.

Heb os, uchafbwynt y flwyddyn a aeth heibio oedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd, 25ain – 30ain Mai. Bu aelodau o bob cangen yn brysur yn darparu te a choffi a bu llawer o ddiddordeb yn yr arddangosfa yn y babell – y bras a'r teis!
Cynhaliwyd seremoni fer ym Mhabell Merched y Wawr i gyflwyno copi braille o *Hoff Gerddi Cymru* i Ysgol Gyfun Plasmawr.

Dydd Sadwrn, Mehefin 13eg, trefnwyd stondin yng Ngŵyl Tafwyl, Caerdydd. Mynychodd Cangen Radyr a chynnal stondin gacennau a nwyddau'r Mudiad.

Mynychodd aelodau o'r rhanbarth Ŵyl Haf Machynlleth. Llongyfarchiadau i aelodau cangen Y Fenni am ddod yn gydradd 3ydd yng nghystadleuaeth y sgets. Diolch i Audrey Lewis, cangen Tonysguboriau am ysgrifennu'n gain ar y tystysgrifau. Ein cyfraniad ni ar gyfer y Capsiwl Amser oedd rhaglen, sgript a DVD cyflwyniad y de-ddwyrain o *O'r Bannau i'r Bae* yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008.

Mynychodd swyddogion y rhanbarth Ŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Blaenau'r Cymoedd, ar 27ain Mehefin, a chynnal stondin nwyddau'r Mudiad.

Sefydlwyd Clwb Gwawr newydd yng Nghaerdydd, a changhennau newydd ym Mhontypridd a Chwmbrân ac mae'n galonogol nodi sefydlu cangen newydd yn ardal Glyn Ebwy, yn arbennig gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yno yn 2010.

RHANBARTH DWYFOR

Cychwynnwyd y tymor newydd drwy ddathlu Dydd Owain Glyndŵr yng Ngwesty Mynydd Ednyfed, Cricieth, gyda Geraint Jones, Trefor, yn ŵr gwadd; cafodd pawb eu gwala a'u gweddill o ran bwyd a sgwrs ddiddorol. Ddyddiau'n ddiweddarach, paciodd amryw o aelodau'r Rhanbarth eu bagiau i fynd i'r Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan ble cawsant amser hwyliog a thywydd braf i fwynhau'r arlwy a drefnwyd ar eu cyfer.

Cynhaliwyd y teithiau cerdded misol dan arweiniad rhai o'r aelodau ac arweinwyr allanol mewn gwahanol ardaloedd. Mwynhaodd dau ddwsin o'r Clwb Cerdded benwythnos yn ardal Harrogate, Swydd Efrog, dan arweiniad Ann Stephens Jones, Olwen Rhys a Meryl Davies, ym mis Ebrill. Cafwyd dwy daith hyfryd, ynghyd â chyfle i siopa a bwyta.

Un o dimau cangen Llaniestyn a ddaeth i'r brig yn y Cwis Hwyl a gynhaliwyd yng Nghanolfan Penmorfa; cymerodd un tîm ar bymtheg ran i gyd. Gwerthwyd y raffl er budd Ambiwlans Awyr Cymru.

Aelodau cangen Mynytho ofalodd am wasanaeth carolau'r Rhanbarth a gynhaliwyd yn Eglwys Llanbedrog; cymerwyd rhan gan aelod neu barti o fwyafrif y canghennau. Ann Pierce Jones (Llywydd y Rhanbarth), cangen Golan, oedd yr arweinydd gydag Elsie Roberts, cangen Mynytho, yn cyfeilio. Cyfunwyd y casgliad ag un noson y cwis hwyl i'w gyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru.

Cynhaliwyd y twrnament bowlio deg blynyddol yng Nghanolfan Glasfryn ym mis Ionawr pan gystadlodd dau dîm ar bymtheg. Enillodd Menai Evans, cangen Mynytho, y darian am yr aelod â'r marciau unigol uchaf. Y tri tîm uchaf eu marciau i gynrychioli Dwyfor yng nghystadleuaeth Rhanbarthau'r Gogledd (Aberconwy, Arfon, Colwyn, Dwyfor, Maldwyn-Powys a Meirionnydd) oedd Llaniestyn 1, Llaniestyn 3 a Mynytho).

Bu Ysgol Undydd y Dysgwyr, a gynhelir ar ddydd Sadwrn olaf mis Ionawr, yn llwyddiant unwaith yn rhagor.

Cynhaliwyd noson chwaraeon yn Neuadd Mynytho a chynrychiolwyd y Rhanbarth yn y Chwaraeon Cenedlaethol ym Machynlleth yn y cystadlaethau golff, dominos, gyrfa chwist cymar a Sgrabl Cymraeg. A braf yw cael dweud mai dwy o gangen Abersoch oedd enillwyr cyntaf y gystadleuaeth newydd hon. Daeth clod i'r Rhanbarth hefyd wrth i gangen Llaniestyn ddod i'r brig a changen Mynytho ddod yn gydradd drydydd yn y gystadleuaeth gyrfa chwist cymar, cangen Chwilog yn ail yn y dominos ac aelod o gangen Pwllheli yn drydydd yn y gystadleuaeth golff.

Cangen Pwllheli a orfu yn yr Ŵyl Wanwyn gyda Brenda Owen, cangen Pencaenewydd a'r Cylch, yn ennill y darian am y marciau unigol uchaf.

Mynychodd rhai o'r aelodau Ŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, y Cyf arfod Blynyddol a'r Chwaraeon ym Machynlleth. Diweddwyd y flwyddyn gydag Ŵyl G Haf y Dysgwyr yng Nghricieth.

Bu rhai o'r aelodau yn claddu'r Capsiwl Amser yng Nghanolfan Cywain, Y Bala, ar Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfrannwyd geiriau cân dathlu'r deugain, a gyfansoddwyd gan Anna E. Jones, cangen Abersoch, ar gefndir o fap Dwyfor gydag enw pob cangen o'u hamgylch gan Yvonne Lloyd-Jones, eto o gangen Abersoch gan y Rhanbarth. Daliodd sawl aelod y gadwyn frâs a amgylchynodd y pafiliwn ar y dydd Mercher hefyd.

RHANBARTH GLYN MAELOR

Cafwyd blwyddyn lwyddiannus yn y rhanbarth eleni. Cynhaliwyd y Cwis Cenedlaethol yn y Ganolfan Gymunedol yn Rhuthun gyda naw o dimau yn cystadlu a chafwyd bwyd ardderchog i ddilyn wedi ei ddarparu gan aelodau Cangen Rhuthun.

Cafwyd ein Pwyllgorau Rhanbarth ym mis Hydref a mis Ebrill ar nos Lun a phenderfynwyd eto eleni gynnal pwyllgor mis Ioanwr ar fore Sadwrn rhag ofn tywydd drwg.

Trefnwyd Llith a Charol gan Anwen Williams, ein Swyddog Datblygu.yng Nghapel Seion, Corwen ddechrau mis Rhagfyr.
Hefyd bu nifer o aelodau yn cymryd rhan yn y noson cystadlaethau chwaraeon yn Ysgol Brynhyfryd ym mis Ebrill.

Mae'n mynd yn fwy anodd bob blwyddyn cael rhywbeth gwahanol ac at ddant ein haelodau, ond penderfynwyd cynnalŴyr yl Ranbarth eleni yng Nghanolfan Cae Cymro, Clawddnewydd ger Rhuthun am 10.00 o'r gloch y bore. I ddechrau cawsom sgwrs gan Gareth Vaughan Williams o Wrecsam am amgylchiadau plant trwy'r blynyddoedd. Yna cafwyd bwffe ardderchog a blasus wedi ei baratoi gan gwmni lleol ac yna yn y prynhawn arddangosfa goginio a blasus gan Wendy Jones o Lanuwchllyn.
Yr un diwrnod, cynhaliwyd y gwahanol gystadlaethau tuag at Sioe Llanelwedd. Diolchwn i bawb am eu cydweithrediad parod bob amser.

ADRODDIAD GORLLEWIN MORGANNWG
Dan lywyddiaeth Margaret Jones, cangen Afan, cafwyd blwyddyn arall ddifyr yn rhanbarth Gorllewin Morgannwg.

Mwynhawyd y Cwis Hwyl Cenedlaethol a gynhaliwyd yn y Llew Coch, Treforys y tro hwn, a daeth y canghennau hyn i'r brig: yn gydradd 1af – Treforys a'r Gwter Fawr a 3ydd Pontardawe. Llongyfarchiadau iddynt.

Unwaith eto trefnwyd taith gerdded yn y rhanbarth, y tro hwn, yng Ngerddi Clun, Abertawe dan arweiniad Grace Birt. Bu cangen Abertawe yn weithgar yn gweini te. Yn ystod yr un bore cynhaliwyd cystadleuaeth celf a chrefft y rhanbarth gogyfer â Sioe Llanelwedd a dyfarnwyd mai cardiau cyfarch Mair Williams, collage 'Abertawe'n Fflam' Grace Birt, croesbwyth Sarah East, casgliad o dri phot (marmalêd Teifi Davies, jam Esyllt Jones, ceuled lemwn Annette Hughes) a fyddai'n ein cynrychioli. Diolch i bawb fu'n beirniadu ac yn cystadlu. Braf adrodd i'r tîm hwn ddod yn ail yng nghystadleuaeth Cwpan Radi Thomas yn y Sioe Fawr. At hyn roedd y rhanbarth wedi gwneud yn dda ynŴyl Haf gyda changen Castell Nedd yn ennill gwobr y rhaglen orau, cafodd Gorseinon yr ail am adloniant am eu cyflwyniad 'Bro a Bra' a daeth Monica yn ail ac Esyllt yn drydydd am greu nwydd newydd i'r mudiad.

Cafodd ein cyfraniad, sef lluniau a hanes ein canghennau, at y capsiwl amser yn y Bala ei ganmol yn fawr. Diolchwn i barodrwydd y rhai a gyfrannodd ac a drefnodd y cyfan.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn mae'n debyg oedd cyfraniad arbennig y rhanbarth yn y Sioe wrth gyflwyno arddangosfa casgliad o grochenwaith Morgannwg, yn cwmpasu Nant Garw, Abertawe, Ynysmeudwy ac Ewenni, i gyd wedi eu creu yn gelfydd iawn trwy ddefnyddio gwahanol fathau o grefft ac arlunio. Bu pob cangen yn eu tro wrthi'n gweini ar y bordydd ac roedd y cyd dynnu a'r cydweithredu yn hynod o effeithiol. Mawr yw ein dyled i Malvina am dynnu pawb at ei gilydd a threfnu'r cyfan a nawr mae hi wedi ymddeol o'i gwaith fel swyddog datblygu gallwn ddweud o waelod calon "Da was, da a ffyddlon"

Ymfalchïwn fel rhanbarth am y gwaith mae dwy o'n haelodau yn cyflawni yn genedlaethol - Esyllt Jones, ein Llywydd Cenedlaethol a Catrin Stevens, golygydd *Y Wawr*, ond ar yr un pryd yn ymwybodol iawn o'r gwaith a gyflawnir bob mis yn ein canghennau gan lawer o swyddogion cangen a chlwb sy'n rhoi o'u hamser yn llawen ac yn frwdfrydig . Diolchwn amdanynt.

RHANBARTH MALDWYN POWYS

Gweithgaredd cyntaf y tymor newydd oedd cyfarfod yn Llanerfyl i fwynhau'r Ŵyl Ranbarth, eleni cawsom gwmpeini Nia Parry, cyflwynydd y rhaglen 'Cwpwrdd Dillad' ynghyd â nifer o aelodau yn dangos eu gwisgoedd. Fel arfer mwynhawyd y wledd a drefnwyd gan gangen Llanerfyl.

Daeth saith tîm ynghyd i'r Cwis Hwyl gyda changhennau Llanfair Caereinion a Bro Cyfeiliog yn gydradd gyntaf.

I ddathlu'r Nadolig bu'r aelodau yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant pryd y daeth saith cangen i gymryd rhan, cafwyd gwasanaeth bendithiol a darparwyd lluniaeth ysgafn i bawb yn yr ysgoldy i dilyn.

Roedd y Ffair Aeaf yn un llwyddiannus i Ann Owen, aelod o gangen Bro Ddyfi, pan enillodd y wobr gyntaf am goginio cacen ffrwythau.

Trefnwyd Gyrfa Chwilod gan yr Is-bwyllgor Addysg, a chafwyd noson hwyliog dros ben gyda nifer dda o ddysgwyr yn ymuno yn yr hwyl.

Roedd cynrychiolaeth dda o'r rhanbarth ynŴyl Haf gyda nifer o ganghennau yn llwyddiannus, daeth Llanrhaeadr ym Mochnant yn ail gyda'u cyflwyniad 'Bro a Bra' a changen Bro Cyfeiliog yn ail yng nghystadleuaeth y 'Rhaglen Orau', hefyd daeth llwyddiant i Sian Foulkes, cangen Llanfair Caereinion am gynllunio cerdyn Nadolig. Bu dathlu hefyd yn y chwaraeon, aeth y wobr gyntaf yn y dartiau a'r badminton i gangen Llanfyllin ynghyd â'r ail safle yn y tenis bwrdd. Bu cangen Bro Ddyfi yn ail yn y golff a'r dewis dau ddwrn a hefyd yn drydydd yn y tenis bwrdd. Daeth y wobr gyntaf a'r ail yn y sboncen i'r clybiau Gwawr, gyda chlwb Gwawr Tanat yn gyntaf a chlwb Gwawr Glyndŵr yn ail.

Bu'r pwyllgor Celf a Chrefft hefyd yn brysur yn paratoi ar gyfer y cystadlu yn y Sioe Fawr ond dim llwyddiant y tro yma, ond daliwn ati erbyn y sioe nesaf!

RHANBARTH MEIRIONNYDD

Yn ein pwyllgor Rhanbarth mis Medi, dan lywyddiaeth Wendy Jones, cyfeiriodd yn gyntaf at farwolaeth annisgwyl ein Hysgrifennydd, Mena Jones ar Fedi 3ydd 2008. Un oedd wedi rhoi o'i gorau i'r mudiad dros y blynyddoedd yn wirfoddol ac fel Swyddog Datblygu, bydd bwlch mawr ar ei hôl. Penderfynwyd mynd ymlaen â phwyllgor mis Medi oherwydd hoffter Mena i gario gwaith ymlaen – "fel bo'r gadwyn byth yn torri." Yn ein pwyllgor fis Tachwedd bu raid sefyll i gofio am Marged Lloyd Jones, ein Llywydd Anrhydeddus fu farw Hydref 29ain. Un arall o'n rhanbarth fu'n gweithio'n ddiflino dros y mudiad.

Y Cwis Hwyl: Cafwyd noson lwyddiannus a hwyliog yn Fronoleu. Enillwyr y rhanbarth: 1: Bala 'A' 71 marc: 2: Bro Tryweryn 70 3: Blaenau Ffestiniog 69 4: Corris 69 (wedi cwestiwn torri'r ddadl)

Llith a Charol yn Nhywyn – bu inni gael noson fendithiol iawn yn Nhywyn gyda Mair Roberts, enillydd Cenedlaethol ar emyn dros 60 yn cyfrannu'n unigol, Gaenor Roberts, Mawddwy oedd Arweinydd y Gân,

Bowlio Deg: 30ain .Ionawr: Glan-llyn: 1: Clwb Gwawr y Gwyniaid 2: Talsarnau 3: Rhydymain.
20fed Chwefror: Tim Buddugol Chwe Rhanbarth: Clwb Gwawr y Gwyniaid.

Cyflwynwyd Tlws Cynnydd Aelodaeth i gangen Dolgellau, cynnydd o 8 aelod newydd.
Gŵyl Rhanbarth, mis Ebrill: Noson lwyddiannus yng nghwmni Elin Davies - Doctor Steil, erbyn hyn yn gweithio yn Llundain ond yn dod o Langristiolus yn enedigol. Daeth dros 130 ynghyd. Ymateb Elin: Noson grêt a chynulleidfa wych!
Y Cyfarfod Blynyddol: Anrhydeddwyd Sylwen Lloyd Davies, Y Parc yn Llywydd Anrhydeddus, mae'n aelod sy'n frwd dros bopeth yn ei changen, rhanbarth ac yn genedlaethol.
Cystadleuaeth Rhaglenni: 2008/09: 3ydd: Deudraeth; Clod: Harlech; Clwb Gwawr Y Sgwâr. Dominos: 1af: Trawsfynydd; Dartiau: 3ydd: Trawsfynydd; Badminton: 2il: Mawddwy.
Taith Gerdded Noddedig Llyn Tegid: Sawl aelod wedi cymryd rhan.
Trip Cenedlaethol i Iwerddon: Amryw wedi mwynhau'r holl brofiad, disgwyl diwrnod yn fwy tro nesaf!
Taith Gerdded Rhanbarth: Arweinydd Glenys Thomas, Sarnau, siomedig oedd yr ymateb.
Sioe Llanelwedd: Cwpan Radi Thomas: Nen Davies, Bro Tryweryn: Marciau llawn - Casgliad o 3 pot o Jam, Ceuled Lemwn a Marmaled. Meirionnydd - Trydydd yn y gystadleuaeth
Arian i Bawb: Derbyniwyd dan gyfarwyddyd Mim £1,600 - ar gyfer Camera digidol a dylunydd (£450) Byrddau Arddangos (£450) Deunyddiau Crefft (£400) Fframiau ar gyfer yr arddangosfa (£300)
Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau: Rhaid sôn am -

- yr uned a phawb fu ar ddyletswydd yn estyn croeso yno dan gyfarwyddyd Mim ein Swyddog Datblygu.
- Yr Arddangosfa: Aur, Llechi, a Gwlân dan arweiniad Olwen Jones a Llinos Cadwaladr.
- Maes D –Arddangosfa Teis a stondin yng ngofal Shirley Williams a Lona Puw.
- Y Capsiwl Amser a'r rhai fu yn y seremoni yng Nghanolfan Cywain ar y Sadwrn cyntaf.
- Y gadwyn Fras o amgylch y pafiliwn.
- Cofio Marged Lloyd Jones' ar y dydd Mercher a'r dydd Gwener ym Maes D.
- Pawb fu'n cymryd rhan yn unigol mewn corau, partïon, pwyllgorau, a'n haelodau unigol.
- Catrin Fflur Roberts, Clwb Gwawr Y Sgwâr oedd yn cynrychioli Mamau'r Fro.
  Shirley Williams, Deudraeth dderbyniodd Dlws Elvet a Mair Thomas.
  Ysgrif 1af: Gwawr Morris, Llanuwchllyn
  Trosi dwy ddrama fer i'r Gymraeg 1af: Rhianwen Evans, Rhydymain
  Mair Penri – ail Adrodd digri. Cwmni Plant y Parc 1af dan 25 oed.
  Rhian Llwyd Dafydd, Parc – Prif Actores yr Eisteddfod
  Mair Roberts, Bryncrug ar ddod yn fuddugol ar yr Unawd i rai dros 60 oed
- Yn arbennig iawn Mair Penri: awdur a chynhyrchydd cyflwyniad 'Y Dechreuadau' ar lwyfan y Brifwyl ac i bawb fu ynghlwm â'r cynhyrchiad.

Sioe Sir yng Nghorwen: Bu cystadlu brwd gyda Chwpan Mrs Glenys Jones: i'r gangen gyda marciau uchaf yn y cystadlu unigol: Yn gydradd gyntaf: Deudraeth a Chlwb Gwawr y Gwyniaid.

Bu'n flwyddyn brysur a bu ambell broblem ar y ffordd ond diolch cywir i Tegwen Morris a'r tîm yn y Swyddfa am bob arweiniad ac yn arbennig i Mim Roberts, ein Swyddog Datblygu hynod o weithgar.

RHANBARTH MÔN

Cychwynnodd blwyddyn newydd 2008-09 Merched y Wawr ym Môn gyda dwy swyddog newydd, sef Ann Roberts fel llywydd a Ceinwen Davies fel ysgrifennydd. Diolch i'r cyn swyddogion Eleanor Hughes a Margaret Roberts am eu gwaith dygn dros ddwy flynedd.
Parhaodd Mora Barton ein trysorydd yn ei swydd am drydydd blwyddyn cyn trosglwyddo i'r is-drysorydd Linda Lloyd Owen ymhen blwyddyn.

Mwynhawyd noson hwyliog y cwis cenedlaethol ym Modedern ym mis Tachwedd, gyda'r canghennau canlynol yn dod i'r brig:- 1af, Llandegfan. 2il, Llanfairpwll a 3ydd Porthaethwy.
Pob blwyddyn byddwn yn codi arian at elusennau penodedig. Fe aeth yn fis Ionawr 2009 cyn i sieciau'r flwyddyn cynt gael eu trosglwyddo i gynrychiolwyr yr elusennau. Cyflwynwyd £402.01 i'r Ambiwlans Awyr, yn dilyn Sioe Ffasiwn, a £2168.20 i Hosbis yn y Cartref a godwyd trwy'r daith gerdded flynyddol sy'n cynnwys £500 a dderbyniwyd gan HSBC trwy law Linda Lloyd Owen. Tynnwyd lluniau o'r cyflwyniad ac fe'u hanfonwyd i bedwar papur bro'r ynys ac i'r Wawr.
Eleni penderfynwyd noddi Mudiad Ysgolion Meithrin Môn ŷa Cartobaith a fydd yn derbyn £1238.14 yr un. Codwyd yr arian drwy Noson Garolau yn Llanfechell yn Rhagfyr 2008 a noson "Arlwyo yn Andalucia " yn Llandegfan yn Ebrill 2009, gyda Siôn Owen Jones a ddaeth yn ail orau yng nghystadleuaeth "Casa Dudley" Cafwyd noson llawn hwyl gyda Sion yn adrodd ei hanes i ni ac yn datgelu ambell i gyfrinach am y ffilmio. Yn dilyn hyn cafwyd profi bwydydd Andalwsiaidd a lluniaeth pellach gan gangen Llandegfan. Chwyddwyd y gronfa ymhellach gyda'r daith gerdded ym mis Gorffennaf yn ardal Llangefni a drefnwyd gan gangen Rhosmeirch. Cyflwynir yr arian i'r ddwy elusen yn Ionawr 2010.

Ymdrech flynyddol sy'n gofyn am drefnu manwl dros nifer o fisoedd yw presenoldeb Merched y Wawr dros ddeuddydd yn Sioe Amaethyddol Môn ganol fis Awst. Mae'r llwyddiant yn hollol ddibynnol ar y tywydd wrth gwrs, ac eleni cafwyd diwrnod cyntaf braf iawn gyda nifer helaeth o ymwelwyr, ond ail ddiwrnod gwlyb a thawel. Gwahoddwyd cylchoedd meithrin Môn i gyfrannu tuag at yr arddangosfa ar Hwiangerddi a chafwyd pabell liwgar a bywiog, gyda changhennau Merched y Wawr yn cyfrannu teganau meddal o bob math. Ar ddiwedd y Sioe cyflwynwyd y teganau i gynrychiolydd o Dŷ Gobaith.

'Rydym yn ddiolchgar iawn i Jane Owen, cadeirydd Is bwyllgor Celf a Chrefft, i Enid Hughes, yr ysgrifennydd ac aelodau'r pwyllgor am sicrhau llwyddiant yr arddangosfa a hefyd i holl aelodau canghennau Merched y Wawr yr ynys a weithiodd yn y babell ac a ddarparodd baneidiau lawer i feirniaid a swyddogion y Sioe, dros y ddeuddydd.
Ein pryder o wneud hyn bob blwyddyn, yw'r gost uchel, gan fod angen codi bron i £1,500. Bu'n rhaid cynnal raffl fawr a chodwyd ychydig o arian yn ystod y Sioe. Roedd hyn yn ddigon i glirio'r costau, gyda'r swm anrhydeddus o £12.43 wrth gefn.

RHANBARTH PENFRO

Mis Medi aeth nifer o aelodau i'r Penwythnos Preswyl yn Llambed.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i aelodau'r Rhanbarth yng Ngwesty Nantyffin. Roedd hwn ar ffurf cinio a'r gŵr gwadd oedd Geraint Lloyd. Cafwyd anerchiad ysgafn a difyr ganddo. Roedd y noson yn dilyn dymuniad y diweddar Eirlys Davies a oedd mor hoff o gymdeithasu. Yn ystod y noson casglwyd £172 ar y raffl i ddigolledu Merched Lesotho ar ôl iddynt orfod talu am y defnyddiau anfonwyd atynt o'r Rhanbarth.

Ffurfiwyd Is-Bwyllgor Gŵyl a Hamdden yn y Rhanbarth gydag wyth o aelodau, ar gyfer trefnu chwaraeon, cystadlaethau ac arddangosfeydd yn y Gwyliau Cenedlaethol a Rhanbarthol.

Penderfynwyd ar dair eitem fach i'w cynnwys yn y Capsiwl Amser, sef llyfr Mair Garnon James "Hiwmor Sir Benfro", copi o'r pwnc o waith Nan Lewis a'r diweddar Eirlys Davies a Brawddeg fer yn datgan mae dyn oedd yn gyfrifol am sefydlu cangen Hwlffordd o Ferched y Wawr!

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill yn y Rhanbarth fel y Cwis Hwyl, yr ymgyrch casglu bras, a bu rhai aelodau yn ddigon ffodus i fynd ar y daith i Iwerddon.

Aeth nifer fawr o aelodau i Ginio'r Llywydd yn y De yng Nghlydach.

Cynhaliwyd ffeiriau ategolion llwyddiannus mewn sawl cangen yn y Rhanbarth. Cafwyd nosweithiau difyr iawn!

Ym Mis Gorffennaf cafwyd noson gymdeithasol a difyr iawn yn festri Blaenffos i arddangos y gwaith fyddai'n mynd i gystadleuaeth Sioe Llanelwedd. Roedd aelodau Blaenffos wedi paratoi paned gyda sgoniau mefus a hufen ar ein cyfer.

Diolch i Elizabeth Evans am ei holl gymorth yn ystod y flwyddyn ac yn arbennig am ei phresenoldeb ym mhob achlysur. Diolch hefyd am bob cymorth o'r Swyddfa yn Aberystwyth.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION DATBLYGU

SWYDDOG DATBLYGU Y DE-DDWYRAIN A GORLLEWIN MORGANNWG
Malvina Ley

Dechreuodd y tymor yn y ffordd arferol gyda'r pwyllgor rhanbarth a Fforymau Iaith Abertawe a Nedd Port Talbot. Bu aelodau'r Fforymau yn mapio'r gweithgareddau Cymraeg yn y ddwy Sir.

Mynychodd nifer helaeth o aelodau'r rhanbarth y Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd y Cwis Hwyl yn Nhreforys a bu'n noson lwyddiannus iawn a thîmau o Gangen Treforys a'r Gwter Fawr yn dod i'r brig.

Pleser oedd cael gwasanaethu yn y Ffair Aeaf ddechrau Rhagfyr a chael rhai o aelodau'r rhanbarth yn cystadlu yn y cystadlaethau.

Hyfryd oedd y fraint o ymuno gyda changen Castellnedd wrth iddynt ddathlu'r deugain ym mis Mawrth yng nghwmni'r gwestai sef Nan Lewis.

Cynhaliwyd Cinio'r Llywydd yn y De yn y rhanbarth ym mis Ebrill a braf iawn oedd croesawu aelodau o'r rhanbarthau eraill i Westy Manor Park, Clydach.

Hefyd ym mis Ebrill cynhaliwyd taith gerdded hynod o ddifyr. Cafodd nifer fawr o aelodau'r rhanbarth ein tywys o gwmpas Gerddi Cŷn gan Grace Birt, Llywydd Cangen Abertawe a chael hanes y gerddi a'r adeiladau yno. Cynhaliwyd cystadlaethau i ddidoli eitemau ar gyfer Sioe Llanelwedd.

Mynychodd nifer o aelodau'r rhanbarth Ŵyl Haf ym Machynlleth a chystadlu yn y cystadlaethau llwyfan a gwaith llaw. Fe ddaeth llwyddiant i gangen Gorseinon yn y cystadlaethau llwyfan ac Esyllt a Monica Evans yn y cystadlaethau gwaith llaw.

Llongyfarchiadau mawr i gangen Castellnedd ar ennill y wobr am y rhaglen orau eleni. Mae gwaith Joanna Porter yn werth ei weld ac yn drysor i'r aelodau.

Bu'r haf yn brysur dros ben. Fe wnaeth pob cangen gyfrannu deunydd ar gyfer y Capsiwl Amser gan dynnu llun o'r aelodau a chofnodi hanes y sefydlu.

Yna ym mis Gorffennaf rhanbarth Gorllewin Morgannwg oedd yn gyfrifol am gynnal stondin y Mudiad yn Sioe Llanelwedd. Trefnwyd arddangosfa wych i bortreadu a dathlu crochenwaith Morgannwg. Defnyddiwyd amrywiol ddoniau i ddehongli a chynrychioli crefft crochenwyr ddoe a heddiw – batik, découpage, arlunio, brodwaith, crochenwaith a chrefft amlgyfrwng. 'Roedd yn waith cywrain rhyfeddol gan chwech o aelodau'r rhanbarth a chafodd sylw mawr yn y Sioe. Hefyd cafodd y rhanbarth yr ail wobr yn y gystadleuaeth. Bu nifer o ganghennau'r rhanbarth yn gweini te ar y stondin. Cawsom wythnos bleserus a llwyddiannus iawn a chymaint o fwrlwm ar y stondin gydol yr wythnos.

Aeth nifer o aelodau'r rhanbarth ar daith y Mudiad i'r Iwerddon a chawsom benwythnos bythgofiadwy a chwmni ardderchog.

Wrth i mi ddod i ddiwedd fy nghyfnod fel Swyddog Datblygu hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb fu'n cydweithio â mi ar hyd y blynyddoedd – Tegwen a merched y swyddfa, y swyddogion cenedlaethol a rhanbarthol ac aelodau'r canghennau sydd wedi bod mor gefnogol. Mae wedi bod yn gyfnod o waith caled a phleserus dros ben. 'R ydw'i wedi cael llawer o brofiadau difyr ac wedi gwneud ffrindiau oes. Diolch o galon i bawb.

SWYDDOG DATBLYGU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU
Anwen Williams

Dechreuodd y tymor newydd yn llawn bwrlwm a'r prysurdeb arferol yn rhanbarthau Colwyn a Glyn Maelor, gyda digwyddiadau diddorol ac amrywiol ym mhob cangen. 'Rwyf hefyd wedi ymweld â rhai canghennau a chael nosweithiau difyr ac addysgiadol yn eu cwmni.

Yn ôl yn yr Hydref cynhaliwyd Cwrs Crefft undydd yn Nhrefnant gan Ranbarth Colwyn - sef Arlunio a Phaentio dan ofal Eleri Jones a chafwyd diwrnod llwyddiannus.

Ym mis Tachwedd cynhaliwyd ŵyl Gerdd Dant yn Y Rhyl lle bûm yn hyrwyddo'r Mudiad ac yn rhannu gwybodaeth a gwerthu nwyddau. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn.

Bu'r Cwis Hwyl yn llwyddiant eto eleni, lle y daeth nifer dda iawn o'r aelodau ynghyd yn y ddau ranbarth i gystadlu a chymdeithasu. Eleni ymunais â rhanbarth Glyn Maelor yng nghanolfan gymdeithasol Llanfwrog, Rhuthun, a chyfarfu rhanbarth Colwyn yn y Wheatshif ym Metws yn Rhos. Cafwyd noson ddifyr yn y ddau Ranbarth.

Rhanbarth Glyn Maelor oedd yn gyfrifol am dapio rhifyn y gaeaf o'r Wawr ar gyfer y Deillion. Diolch i Morfydd a Menna Jones Rhuthun am ymgymryd â'r cyfrifoldeb o'r gwaith yn eu cartref a threfnu darllenwyr. Diolch i bawb am roi o'u hamser i hwyluso'r gwaith. Braf oedd cael bod yn rhan o'r recordio a chael profiad newydd. Tro Glyn Maelor oedd hi hefyd i gyfrannu i dudalen Y Dysgwyr yn rhifyn y Gwanwyn o'r Wawr, a diolch i ddysgwyr o gangen Rhuthun am eu parodrwydd i gyfrannu i'r dudalen hon, a chafwyd cyfraniad gan gangen Rhuthun yn rhifyn yr Haf.

Ddiwedd mis Tachwedd mynychais y Ffair Aeaf yn Llanelwedd a bûm yn cynorthwyo ar safle'r Mudiad ar y dydd Mawrth. Eto eleni 'roedd nifer dda wedi cystadlu a oedd yn wledd i'r llygad! Hefyd bu rhai aelodau o'r ddau ranbarth yn llwyddiannus yn y cystadlaethau agored; llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Trefnais wasanaeth Llith a Charol eto eleni yn y ddau Ranbarth; y naill yng nghapel Seion Corwen, Rhanbarth Glyn Maelor; a'r llall yng nghapel Y Groes ger Dinbych, rhanbarth Colwyn. Cymerwyd rhan gan aelodau'r ddau ranbarth a chafwyd gwasanaethau cofiadwy gyda naws arbennig, a chyfle i gymdeithasu dros baned a mins peis ar y diwedd. Diolch i bawb am eu cymorth parod a'u rhoddion hael i'r ddwy Elusen sef Ambiwlans Awyr Cymru a chymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion.

Mynychais Gwrs Crefft y Gogledd ym Mhlas Isa Corwen ddiwedd Ionawr lle daeth nifer fawr o aelodau ynghyd, a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn gwneud cardiau, brodwaith a dilyn cyfarwyddiadau gwneud jam, marmaled a cheuled lemon. Diwrnod pleserus ac addysgiadol mewn lleoliad hyfryd.

Trefnodd Rhanbarth Colwyn ornest Bowlio Deg eleni am y tro cyntaf, yn Llandudno, a chafwyd noson hwyliog a difyr iawn. Aeth y timau buddugol ymlaen i'r ornest derfynol ym Mhwllheli.

Ddiwedd Ionawr cynhaliwyd arddangosfa Archif Menywod Cymru yn Yr Wyddgrug, a bûm yn paratoi arddangosfa o hanes y mudiad i'w arddangos yno. Hefyd cafwyd eitemau o waith crefft rhai o aelodau cangen Yr Wyddgrug ynghyd ag eitemau eraill o'r rhanbarth i'w harddangos. Diolch i aelodau cangen Yr Wyddgrug am baratoi paned a chynorthwyo ar y diwrnod.

Yn ystod y cyfnod hwn 'rwyf wedi mynychu pwyllgorau Staff/Swyddogion yn Aberystwyth; mynychu Is bwyllgor Iaith a Gofal a Rhyngranbarthol; pwyllgorau'r ddau ranbarth; pwyllgorau Mentrau Iaith Sir Ddinbych a Maelor; pwyllgor pabell Merched y Wawr sioe

Dinbych a Fflint; pwyllgorau Yr Urdd a phwyllgor Sirol Ffermwyr Ifanc Clwyd; ymweld â changhennau Rhuthun a'r Groes.

Bu cyfnod y Gwanwyn a'r Haf yn gyfnod o ddigwyddiadau a gweithgareddau amrywiol a diddorol unwaith eto yn rhanbarthol a Chenedlaethol. Diolch i holl swyddogion y ddau ranbarth am eu gwaith trylwyr, eu cymorth parod au cydweithrediad bob amser. Pleser fu mynychu, trefnu a chynorthwyo yn yr amrywiol ddigwyddiadau.

Ym mis Mawrth 'roedd Archif Menywod Cymru yn ymweld ag ardal Wrecsam a bûm yn paratoi arddangosfa o hanes y Mudiad i'w arddangos yno. Bu rhai o aelodau cangen Wrecsam yn cynorthwyo a chyfrannu i'r arddangosfa hefyd.

Mynychais y cystadlaethau Chwaraeon yng Ngholwyn a Glyn Maelor ym mis Ebrill, a chafwyd gornest frwdfrydig a hwyliog yn y ddau ranbarth, gyda'r enillwyr yn mynd ymlaen i'r Ŵyl Haf ym Machynlleth ym mis Mai. Bu cryn ddiddordeb yn y gystadleuaeth "Sgrabl" oedd yn newydd eleni.

Ddechrau Ebrill ar ddydd Sadwrn Y Pasg mynychais ginio'r Llywydd Cenedlaethol yng Ngwesty Tŷ Oriel yn Llanelwy lle bûm yn cynorthwyo a chynnal stondin nwyddau'r Mudiad i'w gwerthu. Croesawyd nifer fawr o aelodau o bob rhan o'r gogledd, a chafwyd diwrnod bendigedig, cinio blasus ac adloniant safonol gan Steffan Rhys Hughes ac Angharad Rowlands Dinbych gyda Leah Owen yn cyfeilio.

Trefnwyd bore Sadwrn llwyddiannus eto eleni i'r Dysgwyr gan ranbarth Colwyn yng Nghanolfan Llansannan. Bore o weithgareddau amrywiol o gemau, dawnsio gwerin a chanu, cyfle gwych i'r Dysgwyr ymarfer a sgwrsio yn Gymraeg. Yr un diwrnod cynhaliwyd cwrs undydd Trefnu Blodau gan ranbarth Colwyn yn neuadd Y Groes dan ofal Haf Evans aelod o gangen Henllan.

Ym mis Mai yn ôl yr arfer mynychais y Cyfarfod Blynyddol a'r Ŵyl Haf ym Machynlleth a chynorthwyo yn ôl y galw. Diwrnod byrlymus a phrysur yn llawn o weithgareddau a chystadlaethau gydol y dydd a chafwyd rhywbeth at ddant pawb! Daeth llwyddiant i nifer o aelodau'r ddau ranbarth yn yr holl gystadlaethau amrywiol a gynhaliwyd yn ystod y dydd. Llongyfarchiadau calonnog a diolch i bawb fu'n cystadlu. Ond rhaid llongyfarch yn arbennig y rhai fu mor llwyddiannus yng nghystadlaethau'r Dysgwyr eleni o ranbarth Colwyn. Mae ein diolch yn ddiffuant yn arbennig i aelodau cangen Llansannan am eu dycnwch a'u dyfalbarhad gyda'r Dysgwyr yn barhaol, ac yn eu cymell i gystadlu. Dalier ati! Yn ystod y mis hwn hefyd cynhaliwyd Gŵyl Ranbarth Colwyn yn Llansannan, a chafwyd noson hwyliog o adloniant yng nghwmni côr ieuenctid Bro Gwerfyl. Bûm hefyd yn ymweld a chynorthwyo canghennau Bryneglwys a Llandegla, Bontuchel a Dinbych gydag awgrymiadau a threfnu rhaglen 2009/10.

Ar ddydd Sadwrn yn ystod mis Mehefin y cynhaliwyd Ŵyl Ranbarth Glyn Maelor eleni, mewn lleoliad hyfryd yn y wlad, sef Canolfan Cae Cymro Clawddnewydd ger Rhuthun a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Croesawyd hanesydd lleol i roi sgwrs yn y bore, ac yn dilyn cinio blasus gan gwmni lleol cafwyd arddangosfa goginio wych dan ofal yr arbenigwraig Wendy Jones Llanuwchllyn. Yr uchafbwynt oedd cael blasu'r holl ddanteithion ar y diwedd! Ar y diwrnod hwn hefyd y cynhaliwyd cystadlaethau crefft y

rhanbarth at Sioe Frenhinol Llanelwedd. Er nad oedd y cystadlu'n niferus iawn, 'roedd yr holl eitemau o safon uchel.

Pleser fu cael ymuno a changen Yr Wyddgrug ar ddechrau'r mis yng nghwmni'r Llywydd Cenedlaethol Esyllt Jones i ddathlu pen-blwydd y gangen yn ddeugain oed ym Mhlas Isa Corwen. Daeth nifer fawr o'r aelodau presennol a chyn aelodau ynghyd i fwynhau'r wledd arbennig a hel atgofion.

Ar ddiwedd y mis mynychais Gyfarfod Celf a Chrefft rhanbarth Colwyn gydag arddangosfa o waith yr aelodau, ynghyd ag arddangosfa a sgwrs gan wraig ifanc oedd wedi mentro i fyd busnes trwy gasglu ac ailgylchu llestri o bob math, yna eu paentio ag ychwanegu addurn iddynt cyn eu gwerthu. Noson ddiddorol iawn yn llawn syniadau gwreiddiol! Y noson hon hefyd y cynhaliwyd cystadlaethau crefft y rhanbarth at Sioe Llanelwedd. Bu cystadlu brwd a bu'r beirniaid yn brysur yn cloriannu'r gwaith. Llongyfarchiadau i gangen Llanelwy am gipio'r darian am y mwyafrif o farciau eleni. I orffen y tymor ymunais â helfa drysor ar droed yng Ngorffennaf a drefnwyd gan bwyllgor Chwaraeon Colwyn. Daeth nifer dda o'r aelodau a rhai dysgwyr ynghyd, a chafwyd noson hynod o braf ac addysgiadol yn crwydro o gwmpas Dinas Llanelwy.

Mynychais y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd a bûm yn cynorthwyo ar safle'r Mudiad ar y stondin gwerthu nwyddau ar y bore dydd Mawrth. Hefyd ar ddechrau Awst mynychais yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala a bûm yn cynorthwyo un bore ym mhabell y Mudiad ar y maes. Balch ydym o lwyddiant dwy ddysgwraig o ranbarth Colwyn a fu'n llwyddiannus yn yr adran Llenyddiaeth yn yr Eisteddfod yn y Bala eleni. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant.

Ddiwedd Awst bûm yn cynorthwyo gyda pharatoadau pabell Merched y Wawr sioe Dinbych a Fflint, ac yn hyrwyddo'r Mudiad a gwerthu nwyddau ar y diwrnod. 'Roedd y babell yn fwrlwm drwy'r dydd, a bu llawer o ddiddordeb yn yr arddangosfa o waith llechen gan grefftwr lleol, ac arddangosfa o waith crefft rhai o'r aelodau. Hefyd cafwyd arddangosfa o waith y rhai fu'n cystadlu yn y Ffair Aeaf, Sioe Llanelwedd ar Ŵyl Haf.

Ddechrau Medi mynychais gyfarfod Panel Dysgu Anffurfiol Dinbych a Chonwy yn Llysfasi gyda nifer o'r Partneriaid, dan ofal Siwan Hywel, Coleg Bangor. Prif amcan y cyfarfod oedd ceisio cydweithio yn y dyfodol i drefnu digwyddiadau yn fwyaf arbennig i ddysgwyr a theuluoedd, yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg â'n Mudiadau ar raddfa ehangach. Penderfynwyd trefnu gweithgareddau yn y cyfarfod nesaf.

SWYDDOG DATBLYGU CAERFYRDDIN
Yvonne Davies-Grodzicka

Dechreuais yn ôl yn y gwaith ar ôl cyfnod o salwch ganol Hydref. Roedd y canghennau wedi ail gychwyn, a bûm yn ymweld â Bro Gwili, Pumsaint a Bro Alma i ddosbarthu'r nwyddau.

Yn Nhachwedd bûm yn cynorthwyo'r rhanbarth yn y Cwis Hwyl, daeth 22 tîm i gystadlu yn neuadd Pontargothi. Enillwyr y rhanbarth oedd cangen Pencader, Caerfyrddin yn ail ac yn gyfartal drydydd San Clêr a Bro Cennech, ac yn genedlaethol daeth Pencader yn gyfartal gyntaf gyda changen Rhiwlas. Llongyfarchiadau iddynt, braf hefyd fod tair dysgwraig wedi cymryd rhan yn y cwis.

Daeth tua deugain o aelodau ynghyd i Nantgaredig i'r ysgol undydd, cawsom dri chwrs wrth ein bodd sef gwaith llaw, ailgylchu a choluro. Diolch i swyddogion celf a chrefft am y gwaith caled o drefnu'r diwrnod arbennig.

Mynychais gyngerdd mawreddog cangen Pencader yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeugain oed, hefyd bûm yn cynorthwyo yn niwrnod archif menywod Cymru yng Nghaerfyrddin.

Cefais gyfweliad gan ddysgwraig lleol ar gyfer erthygl i'r 'Wawr', a hefyd mewn trefniadau gydag Elin Mair ynglŷn â'r prosiect pilot saith/iaith.

Ers cyfarfod rhyngranbarthol mis Chwefror, mai wedi bod yn gyfnod prysur yn rhanbarth Caerfyrddin, bum yn pwyllgor rhanbarth a staff, fforwm sirol sir Gâr, diwrnod y merched yn neuadd San Pedr a chyfarfodydd Bwrdd yr Iaith. Derbyniais lythyr gan Mallt Anderson Cymdeithas y Dywysoges Gwenllian, yn sôn am drip i Sempringham, bûm yn cysylltu â'r canghennau gyda'r manylion.

Yna ym mis Ebrill bum yn cynorthwyo gyda'r chwaraeon erbyn yr Ŵyl Haf. Uchafbwynt y flwyddyn oedd dathlu deugain y rhanbarth drwy gynnal cyngerdd mawreddog yng nghapel Tabernacl Caerfyrddin. Yn bresennol oedd ein Llywydd Cenedlaethol Dr. Esyllt Jones a Llywydd Anrhydeddus y rhanbarth Enid Jones. Cafwyd gair o groeso gan Haulwen Booth llywydd rhanbarth, soniodd am weithgareddau'r rhanbarth dros y deugain mlynedd. Roedd y capel yn orlawn gyda Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith yn Llywydd y noson. Cafwyd mwynhad wrth wrando ar Rhys Meirion a'i lais swynol, gyda chôr pwerus a disgybledig Rhuthun dan arweiniad Robat Arwyn a'r gyfeilyddes ddawnus Meinir Jones Parry. Bu ymateb y gynulleidfa yn unfrydol ar adborth a dderbyniwyd oedd "mwynhad pur". Gwnaed y diolchiadau yn effeithiol iawn gan Glenys Thomas is-lywydd y rhanbarth. Dymunwn ddiolch i'r swyddogion rhanbarth am yr holl waith o drefnu cyngerdd dathlu mor llwyddiannus.

Dechrau Mehefin cynhaliwyd noson goffi yn ysgol Nantgaredig, noson gymdeithasol a hefyd i feirniadu cystadleuaeth sioe Llanelwedd. Ymunais ar daith gerdded clybiau gwawr ym Mharc gwledig Pembre, i godi arian at gancr y fron a'r mudiad, hefyd trefnais i gangen y Gwendraeth i ymweld ag Eglwys y Carcharorion yn Henllan.

Mynychais yr Ŵyl Fenywod yn yr Ardd Fotaneg gan werthu nwyddau'r mudiad. Bum hefyd yn helpu pwyllgor Gŵyl a Hamdden i gasglu eitemau erbyn sioe Llanelwedd.

SWYDDOG DATBLYGU CEREDIGION A PHENFRO
Elizabeth Evans

Cychwynnodd y flwyddyn gyda'r bwrlwm arferol wrth i mi ymuno â changen Blaenffos yng Ngwesty Nantyffin i ddathlu pen-blwydd y gangen yn ddeugain oed. Noson ddiddorol a hwyliog a'r aelodau wedi bod yn brysur yn casglu toreth o luniau o'r cyfnod. Yng nghwrs y flwyddyn mynychais bedwar pwyllgor rhanbarth Ceredigion yn Aberaeron a phedwar o rai Penfro gan gychwyn ym Medi drwy gynnal cinio eto yng Ngwesty Nantyffin yng nghwmni bron i gant o aelodau a Geraint Lloyd, Radio Cymru yn westai. Yna yn Nhrefdraeth ym mis Tachwedd, Casblaidd yn Chwefror a Tyddewi ym mis Mai. Cafwyd pedwar cyfarfod o bwyllgor Celf a Chrefft Ceredigion a braf oedd cael cydweithio hwylus efo'r aelodau eleni eto. Mynychais dau bwyllgor rhyngranbarthol, dau is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden a chyfarfodydd staff.

Yn ystod y flwyddyn bum mewn nifer o gyfarfodydd efo amryw o bartneriaid mewn gwahanol feysydd ac yn cynrychioli'r mudiad ar ran y ddau ranbarth o dro i dro - cyfarfodydd

megis Fforymau Iaith y ddau ranbarth, Fforwm 50+ Ceredigion, Bwrdd yr Iaith, Fforwm Cludiant Cymunedol Ceredigion, Lansiad Apêl Nyrs Calon Ceredigion yn y Llyfrgell Genedlaethol, Fforwm Cymdeithas yr Iaith ar ddyfodol ysgolion, Cynhadledd Pontio'r cenedlaethau a Lansiad Fframwaith Ceredigion ym mhafiliwn Pontrhydfendigaid, Pwerdai Ceredigion, Pwyllgorau cyhoeddusrwydd Eisteddfod yr Urdd 2010, Pwyllgorau gogledd Ceredigion o Sioe'r Cardis 2010, Cyfarfodydd Thematig Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Penfro yn Rhosygilwen a chyfarfodydd Llywodraethwyr Coleg Ceredigion. Daeth fy nghyfnod o bedair blynedd ar Fwrdd y Llywodraethwyr i ben ym mis Chwefror a braf deall bod aelod o'r mudiad yng Ngheredigion wedi cymryd fy lle. Treuliais ddiwrnod hefyd yng nghwmni mudiadau Cymraeg eraill ar ein stondin yn Ffair Llandysul.

Mynychais y Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan, tridiau prysur a'r tywydd ar ei orau. Ymunais â thrip Is-bwyllgor Celf a Chrefft Ceredigion ddiwedd Medi a chael diwrnod braf a phleserus iawn. Treulio orig yng Nghoed y Dinas, Trallwng, yna ymlaen i'r Plasau ac oddi yno i Wrecsam. Teithio adre drwy Langollen, Corwen a'r Bala cyn aros yng Ngwesty'r Eryrod yn Llanuwchllyn am swper bendigedig a chroeso twymgalon Cymreig. Cafwyd Cwis Hwyl gwerth chweil yn y ddau ranbarth, yng Ngwesty Tyglyn Aeron ac yng Nghaffi Beca a threuliais y noson eleni yng nghwmni'r Cardis. Cafwyd ymateb ardderchog a galw am gadw'r cwis yn ei fformat newydd i'r dyfodol. Llongyfarchiadau i gangen Bro Ilar am ddod i'r drydedd safle yn genedlaethol. Bum yn cynorthwyo yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ddechrau Rhagfyr . Llongyfarchiadau i Janice Hughes, Capel Newydd ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth. Yna ymuno â changen Melindwr fel gwraig wadd yn y cinio Nadolig. Cyfarfod wedyn efo Tegwen a Siân Owen parthed trosi llyfr ar fudandod i'r Gymraeg a'r posibilrwydd i ranbarth Ceredigion noddi'r fenter. Trefnwyd cwis rhanbarthol hefyd yng Ngheredigion dan y teitl "Adnabod Bro" - pob cangen a chlwb yn anfon dau gwestiwn i fewn (a'r atebion wrth gwrs), yna eu gosod at ei gilydd a gwerthu copïau am bunt yr un. Wedi'r dyddiad cau , eu marcio a'r tri uchaf eu marciau yn ennill gwobr ariannol. Dull arbennig o dda i ddysgu am y gwahanol ardaloedd ac i godi arian, Eleni cynhaliwyd cinio'r llywydd yn y de yng Ngholeg y Drindod , Caerfyrddin a bûm yn cynorthwyo yn ystod y dydd. Diddorol oedd treulio diwrnod yn y lle y bum yn fyfyriwr rai blynyddoedd yn ôl bellach a rhyfeddu at yr holl newidiadau.

Cynhaliwyd Gŵyl Fai lwyddiannus eto eleni yn Aberaeron ddechrau Mai gan sicrhau cystadleuwyr i gynrychioli'r rhanbarth yn y ddwy gystadleuaeth yn Sioe Llanelwedd. Yn dilyn ffurfio Is-bwyllgor Gŵyl a Hamdden ym Mhenfro cafwyd tîm i'w cynrychioli hwythau hefyd. Bu'n sioe hynod o lwyddiannus i'r ddau ranbarth, Ceredigion yn cipio cwpan Radi Thomas a Phenfro yn dynn ar eu sodlau yn y drydedd safle. Daeth Gwyneth Davies, Talgarreg yn ail yn y gystadleuaeth gosod blodau hefyd. Llongyfarchiadau cynnes i bob un fu wrthi mor ddiwyd a diolch am eich ymdrechion glew yn flynyddol. Treuliais rhai dyddiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala gan fynychu cyflwyniad rhanbarth Meirionnydd yn y pafiliwn a chyfarfod teyrnged i'r diweddar Marged Jones.

Yn dilyn cydweithio rhwng Mim a minnau trefnwyd y chwaraeon ar gyfer Ŵyl Haf ym Machynlleth gydag ychydig o newidiadau eleni yn nhrefn y cystadlaethau. Cynhaliwyd noson o chwaraeon ym Mhenfro a thair noson yng Ngheredigion i sicrhau timoedd ar gyfer y genedlaethol . Bu'r diwrnod ym Machynlleth yn llwyddiant gyda'r ddau ranbarth yn llwyddo mewn sawl cystadleuaeth. Gan fod angen ail-wampio ychydig eto ar drefn y chwaraeon rydym eisoes wedi rhoi sylw i hyn ar gyfer 2010.

Manteisiwyd ar y cyfle yn y ddau ranbarth i gynnal cwrs i drysoryddion y canghennau/ clybiau yn ystod un o'r pwyllgorau rhanbarth. Diolch i Miriam Garratt ac Elfair Jones am eu

cyfraniad i'r cyfeiriad hwn. Cafwyd presenoldeb Ceri Wisdom o Shelter Cymru yn y ddau ranbarth hefyd i ddosbarthu pecyn cynhwysfawr o wybodaeth i'r cymunedau gwledig a thrwy gydweithrediad yr aelodau sicrhawyd bod y ffeil wybodaeth yn cyrraedd cyrion y ddwy sir. Enghraifft arall o'r mudiad yn cydweithio a chynorthwyo er lles y cymunedau lleol. Yn yr un modd casglodd aelodau'r ddau ranbarth gannoedd o fronglymau at yr ymgyrch genedlaethol sydd bellach wedi pasio'r pymtheg mil. Ymunais â thaith gerdded noddedig Clybiau Gwawr y de ym Mharc Pembre ger Llanelli a llwyddwyd i godi swm teilwng tuag at y mudiad ac Ymddiriedolaeth Lafant Cancr y Fron.

Ymunais â nifer o ganghennau yn ystod y flwyddyn a chael croeso twymgalon a chydweithio hwylus ynghyd â llawer o hwyl a sgyrsiau diddorol. Deil aelodau'r ddau ranbarth i gyflawni gwaith aruthrol yn wirfoddol ar draws yr ardaloedd yma ac mae hyn yn amhrisiadwy i ffyniant y Gymru wledig. Cyflwynwyd tarian goffa'r diweddar Mair Kitchener Davies am gynnydd aelodaeth yng Ngheredigion eleni i ddwy gangen ac un clwb oedd yn gyfartal. Llongyfarchiadau cynnes i gangen Aberporth, cangen Bronnant a Chlwb Gwawr Cylch Teifi. Agorwyd Clwb Gwawr arall yng Ngheredigion yn ystod y flwyddyn hefyd sef Clwb Gwawr Y Barcud yn ardal Tregaron.

Rwy'n dal i gynnal y slot fisol ar Radio Ceredigion ac yn cysylltu â Radio Cymru i hysbysu digwyddiadau a chyfarfodydd yn gyson. Deil y galwadau ffôn a'r negeseuon e-bost i lifo fel arfer a braint yw cael bod o gymorth i'r swyddogion lleol ac aelodau'r ddau ranbarth. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog i flwyddyn arall yn hanes y mudiad, blwyddyn pan fydd Ceredigion yn eich croesawu i Eisteddfod yr Urdd, y Sioe yn Llanelwedd ac i'r penwythnos preswyl yn Llanbedr Pont Steffan.

SWYDDOG DATBLYGU Y DE-DDWYRAIN A DE POWYS
Eirlys Davies

Wedi ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â'r Brifddinas Awst 2008, es ati ym mis Medi i ddilyn yr ymholiadau fu yn y Babell ar y Maes am fwy o wybodaeth am weithgarwch y Mudiad yn y De-Ddwyrain. Roedd llawer o ddysgwyr da wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r Mudiad.

Gyda swyddogion y rhanbarth yn bresennol cynhaliwyd cyfarfod ganol Medi yn Ystrad Mynach, ardal Cwm Rhymni, gyda'r bwriad o ail sefydlu cangen yno. Cafwyd cyfarfod bywiog ac etholwyd swyddogion diwyd ac mae'r merched yn hapus o gael gweithgarwch misol Cymraeg yn yr ardal.

Bûm yn treulio tipyn o amser y cyfnod yma hefyd yn bugeilio ac ysgogi gweithgarwch yng nghangen Aberhonddu. Maent yn dal ati i gyfarfod ar waetha nifer o anawsterau. Ym mis Hydref, wedi cysylltu â merched ardal Pontypridd, llwyddwyd i ail gynnau'r fflam yno ac ail sefydlu'r gangen gyda swyddogion newydd brwdfrydig.

Cafwyd ymateb da i'r Cwis Hwyl a braf oedd cael cwmni aelodau o Glwb Gwawr newydd Caerdydd yn mentro cystadlu am y tro cyntaf, a llwyddo i ddod yn ail yn y rhanbarth.

Llwyddwyd i gael rhai aelodau o'r rhanbarth i gystadlu yng nghystadlaethau'r Mudiad yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Trefnwyd bws am ddim i ymweld â'r Ffair gan gangen Y Garth, trwy 'Arian i Bawb' Y Loteri Genedlaethol.

Cafwyd Gwasanaeth Carolau graenus a bendithiol pan ddaeth merched y rhanbarth at ei gilydd yng Nghapel y Methodistiaid, Radur. Aelodau cangen Y Garth fu wrthi'n llunio'r Gwasanaeth a threfnu lluniaeth i 120 ohonom.

Wedi cysylltu â nifer o ferched oedd yn siarad Cymraeg neu yn dysgu'r iaith yn ardal Glyn Ebwy, es ati gyda help swyddogion y rhanbarth i drefnu cyfarfod i weld os byddai ganddynt ddiddordeb i ymuno â'r Mudiad. Cadarnhaol iawn oedd yr ymateb ac etholwyd swyddogion i'r gangen. Llawenydd oedd gweld un o aelodau'r gangen yn cael ei dewis yn Fam y Fro yn Seremonïau'r Orsedd, Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent 2010. Cyfrannodd un arall o'r aelodau at ymdrech y rhanbarth yng Nghystadleuaeth Radi Thomas, Sioe Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Gofynnwyd i mi gan y Pwyllgor Rhanbarth i lunio rhestr o siaradwyr/darparwyr fyddai'n fodlon cynnig eu gwasanaeth i'r canghennau/clybiau. Wedi cysylltu â nifer o bobl a sefydliadau, llwyddwyd i lunio rhestr gynhwysfawr, a fydd o ddefnydd i'r canghennau a'r clybiau.

Pleser oedd bod yng nghwmni dros 300 o ferched y Mudiad yng ngwesty'r Manor Parc, Clydach ym mis Ebrill i fwynhau cinio'r Llywydd yn y De. Cawsom wledd hyfryd, areithiau graenus gan Esyllt ein Llywydd a Nia Roberts y wraig wadd, ac adloniant difyr gan Einir Dafydd a Dafydd Jones. Pawb wedi eu bodloni'n fawr.

Cynhaliwyd Noson Goffi Flynyddol y rhanbarth yn y Bontfaen ym mis Mai. Gweithiodd merched y gangen yn galed i addurno'r Neuadd yn chwaethus ac i baratoi lluniaeth i bawb. Estynnwyd croeso i bawb gan Elenid Jones, Llywydd y Rhanbarth. Cawsom noson arbennig iawn yng nghwmni'r fam a'r ferch, Esyllt ein Llywydd Cenedlaethol a Luned ei merch, Cynrychiolydd OXFAM yng Nghymru. Cyflwynwyd 1,000 o FRAS i Luned. Diolchodd Luned i bawb am eu hymdrech ac anogodd ni i beidio anghofio pobl llai ffodus na ni, ledled y byd.

Mynychais y Cyfarfod Blynyddol a'rŴyl Haf ym Machynlleth, ac ymuno yn yr hwyl fu yno drwy'r dydd. Llawenydd mawr i ni fel rhanbarth oedd gweld cangen newydd Y Fenni yn cystadlu am y tro cyntaf ar y Sgets, a chael pawb i ymuno yn yr hwyl.

Ganol mis Mai cefais gais o ardal Cwmbrân, Torfaen, fod dyhead yno am gael cangen/clwb o Ferched y Wawr. Bu Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy yn hynod gefnogol pan drefnwyd cyfarfod yn yr Orsaf Dân yng Nghwmbrân. Bum yno gyda swyddogion y rhanbarth a Ruth Morgan, Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y De, yn sefydlu'r gangen.

Penllanw gweithgarwch y rhanbarth yn 2009 oedd croesawi'r ymwelwyr i Babell y Mudiad yn Eisteddfod yr Urdd, Bae Caerdydd. Profiad newydd i rai o'r canghennau, ond roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dod i adnabod eu cyd-aelodau'n well. Cawsom help arbennig gan staff a'r Swyddogion Cenedlaethol i osod a threfnu'r Arddangosfa yn y Babell. Tystiai pawb ei bod yn drawiadol iawn gweld *BRAS* a Theis yr enwogion yn cael eu harddangos mor chwaethus. Bu cryn ddiddordeb yn yr Arddangosfa gan y Cyfryngau a'r Gwleidyddion o bob plaid. Digwyddiad pwysig iawn yn ystod yr wythnos oedd cyflwyno copi Braille o '*Hoff Gerddi Cymru'*, Gwasg Gomer, i staff a disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd. Roedd y Pwyllgor Rhanbarth wedi neilltuo swm o arian ar gyfer y gwaith o drosi'r

llyfr i Braille, gyda chydweithrediad y Wasg ac RNIB Cymru. Mae'n diolch yn fawr i swyddogion y rhanbarth am eu gweledigaeth a'u dyfalbarhad yn dod â'r gwaith i ben. Diolch arbennig i Vivenne Lee, Ysgrifennydd y Rhanbarth ar y pryd, am ei holl waith yn sicrhau caniatâd hawlfraint ar bob un o gerddi'r gyfrol.

Bu cynrychiolaeth o'r rhanbarth yn cystadlu am gwpan Radi Thomas yn Sioe Llanelwedd. Pleser oedd gweld safon uchel y gystadleuaeth a'r arddangosfa gywrain o Grochenwaith Abertawe, wedi ei llunio gan ferched rhanbarth Gorllewin Morgannwg.

Mynychais bwyllgorau rhanbarth y De-Ddwyrain. Bûm yn cynrychioli'r Mudiad yn Fforymau Iaith, Caerdydd; Rhondda Cynon Taf; Brycheiniog a Maesyfed. Cafwyd cysylltiad hefyd gyda Swyddog Datblygu newydd Menter Iaith Bro Morgannwg. Byddaf mewn cysylltiad cyson gyda Swyddogion Dysgu'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg ym Mhontypridd. Cynrychiolais y Mudiad mewn cynhadledd yn Stadiwm Swalec, Caerdydd, wedi ei threfnu gan Cadwch Gymru'n Daclus. Cafwyd cyflwyniad agoriadol gan Jane Davidson AC y Gweinidog dros yr Amgylchedd, wrth iddi lawnsio yr Ymgynghoriad ar yr Argymhellion i godi tâl am fagiau siopa plastig. Ymunais yn y gweithdai a chafwyd trafodaethau diddorol.

Ar brynhawn Sadwrn gogoneddus ym mis Gorffennaf aeth Llywydd y rhanbarth a minnau i osod stondin o nwyddau'r Mudiad yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy. Roedd darpariaeth dda ar ein cyfer mewn Parc eang a'r croeso yn dwymgalon, rhagflas o'r hyn sydd i ddod yn Awst 2010 gobeithio.

SWYDDOG DATBLYGU GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU A MALDWYN-POWYS
Mim Roberts

Ymunais â rhanbarth Dwyfor ddechrau Medi i ginio ym Mynydd Ednyfed i ddathlu 'Dydd Owain Glyndŵr' a daeth nifer o'r aelodau yno i fwynhau'r wledd. Yna ar y trydydd penwythnos teithiais lawr i Lambed ar gyfer y Penwythnos Preswyl ble cefais brofiad hollol annisgwyl o gael bod ynghlwm â defnyddio camera (ynghyd â phump cyd-swyddog) ar gyfer newydd wedd y mudiad o ffilmio ar gyfer darlledu byw ar safle gwefan Merched y Wawr ar y nos Wener a bore dydd Sadwrn. Gwerthfawrogaf y cyfle hwn o gael gweithio â chamera a gobeithiaf y daw cyfle arall yn y dyfodol agos (yn fuan iawn gobeithio!)

Wedi llwyddiant y cyrsiau crefft llynedd yn ymwneud ag addurniadau Nadolig, trefnais gwrs undydd yn Llanrwst ar gyfer rhanbarth Aberconwy, cwrs undydd ym Mynytho ar gyfer rhanbarth Dwyfor a chwrs dwy noson ar gyfer rhanbarth Meirionnydd.

Unwaith eto eleni trefnais twrnament Bowlio Deg ar gyfer rhanbarth Aberconwy yn Llandudno a braf yw cyhoeddi fod 11 tîm wedi cymryd rhan eleni - pump yn ychwanegol i llynedd. Cafwyd noson llawn hwyl gyda changen Penmachno yn fuddugol, Eglwysbach yn ail a changen Betws y Coed a'r Fro yn drydydd. Gobeithio bydd y canghennau hyn yn mynd ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth yn yr ornest ym mis Chwefror. Yn dilyn llwyddiant y nosweithiau hyn rwyf hefyd wedi trefnu noson ar gyfer rhanbarth Maldwyn-Powys ddiwedd Hydref, rhanbarth Colwyn ym mis Ionawr ac mae rhanbarth Glyn Maelor am drefnu noson yn fuan iawn a gobeithio iddynt hwythau ymuno â'r hwyl ym mis Chwefror.

Dechrau mis Tachwedd trefnwyd cwrs gwneud addurniadau Nadolig gan gangen Deudraeth yn Festri'r Capel a daeth wyth o aelodau ynghyd. Cafwyd diwrnod pleserus iawn. Ymwelais

â changen Llanrwst yn arddangos y grefft o greu addurniadau Nadolig a bu hwythau wrthi yn gwneud pwdin Nadolig ar gyfer y goeden. Mynychais gyfarfod Fforwm Meirionnydd yn Nolgellau. Cefais wahoddiad gan gangen Eglwysbach unwaith eto i wneud addurniadau Nadolig, hwythau wedi creu pwdin Nadolig ar gyfer y goeden. Ymwelais â changen Glan Conwy yn arddangos y grefft o greu addurniadau Nadolig.

Mynychais y Cwis Hwyl eleni yng nghwmni rhanbarth Dwyfor ym Mhenmorfa ger Porthmadog. Cangen Llaniestyn oedd yn fuddugol y noson hon yn Nwyfor.

Derbyniodd Mair Penri a minnau wahoddiad gan gangen Amlwch i ymuno â hwy i ddathlu'r deugain yng Ngwesty Y Lastra ger Amlwch. Cawsom noson ddifyr yng nghwmni'r aelodau ac wedi'r wledd cawsom bortread o Mair Penri a'i phobl. Bum draw i gangen Y Groes ger Dinbych i arddangos addurniadau Nadolig a bu'r aelodau yn brysur yn gwneud pwdin Nadolig ar gyfer eu coed Nadolig. Yr wythnos ganlynol ymwelais â phedair cangen yn gwneud addurniadau Nadolig sef Cangen Mochdre, Porthmadog, Llandegfan a Phennal a chafwyd nosweithiau difyr iawn.

Ymunais â chlwb gwawr Y Gwyniaid ar eu taith flynyddol, y tro hwn i Ddinas Caer a chafwyd amser hwyliog yno a digon o gyfle i wneud ein siopa Nadolig. Mynychais bwyllgor rhanbarth Arfon ddiwedd y mis.

Cynhaliwyd cyfarfod yn ymwneud â phabell Merched y Wawr yn Rhydymain a daeth ambell i aelod a syniadau gwych ar gyfer yr arddangosfa. Penderfynwyd mai thema'r arddangosfa fyddai "Aur, Llechi a Gwlân".

Teithiais lawr i Lanelwedd ar gyfer y Ffair Aeaf yn llwythog iawn - cario gwaith yr aelodau ar gyfer y cystadlaethau a drefnwyd gan y mudiad. Bu'r Ffair Aeaf yn llwyddiannus iawn a chafwyd nifer yn cystadlu yn yr adran y coginio, ffotograffiaeth a'r dorch Nadolig.

Dechrau Rhagfyr bum yn ffodus o dderbyn gwahoddiad gan gangen Penygroes i ymuno â hwy i ddathlu'r deugain yng Ngwesty Plas Isaf yng Nghricieth. Cawsom wledd yn y gwesty a bu i Lywydd cyntaf y gangen ymuno â hwy yr holl ffordd o Sir Benfro. Dyma ni eto, mwy o ddathlu, y tro hwn gyda changen Llanrhaeadr y Mochnant yng ngwesty Y Stymbl Inn ym Mwlch y Cibau ger Llanfyllin yng nghwmni ein Llywydd Cenedlaethol. Wedi'r wledd cawsom noson ddifyr yng nghwmni Arfon Gwilym yn canu hen alawon gwerin a'i wraig Sioned Webb yn rhoi datganiad ar y delyn. I gloi fy ngweithgareddau am y flwyddyn ymwelais â changen Corris i ddathlu'r Nadolig yn eu cwmni a hefyd yn arddangos gwaith llaw.

Dechrau 2009 ar noson hynod o oer, ac wedi llwyddiant o dderbyn grant gan Mantell Gwynedd cawsom noson blasu yng Nghanolfa Hamdden Penllyn ar gyfer y canghennau a chlybiau rhanbarth Meirionnydd. Er gwaetha'r tywydd, bu i 15 droi allan gyda mwy am gychwyn yr wythnos ganlynol. Yn ystod yr wythnosau ym mis Ionawr bu dros 20 y noson yn mynychu'r nosweithiau hyn yn y Ganolfan a braf yw gweld aelodau o Ferched Y Wawr a chlybiau yn mynychu'r nosweithiau gyda'i gilydd. Cost fechan sydd i'r aelodau o £2 y noson a chânt gyfle i defnyddio'r pwll nofio, y gampfa neu weithgaredd yn y Neuadd. Bu'r nosweithiau hyn yn dilyn hyd at ddiwedd Mawrth a gobeithiwn y bydd yr aelodau hyn yn parhau i ddefnyddio'r ganolfan.

Mynychais Bwyllgor Rhanbarth Dwyfor ac yno croesawyd aelod o Ambiwlans Awyr Cymru a oedd yn derbyn siec gan y rhanbarth wedi iddynt gasglu'r arian yn eu cyfarfod gwasanaeth Nadolig ym Mynytho mis Rhagfyr. Nos Wener Ionawr 16eg cynhaliwyd twrnament bowlio

deg rhanbarth Arfon yng Nglasfryn. Roedd 13 o dimau wedi cystadlu a 10 cangen wedi ymuno yn yr hwyl. Roedd dwy gangen wedi ymuno eleni am y tro cyntaf. Cangen Y Groeslon ddaeth i'r brig gyda 373 o farciau, clwb gwawr Glannau Llyfni yn 2ail hefo 367 o farciau a changen Llanrug Tîm 2 ddaeth yn 3ydd gyda 350 o farciau.

Ionawr 17eg teithiodd Llinos Roberts a minnau lawr i Drefdraeth i gynnal Cwrs Crefft y De yng ngwesty Llwyngwair. Roedd Llinos yn cynnal cwrs brodwaith yn defnyddio haearn sodro ar ddefnydd a finnau yn cynnal cwrs cardiau cyfarch. Roedd y ddau gwrs yn seiliedig ar gystadleuaeth Sioe Llanelwedd 2009. Bu i ddwsin o ferched fynychu'r cwrs cardiau ac 11 fynychu'r cwrs brodwaith hefo Llinos.

Cefais wahoddiad gan TWF i gynnal sesiwn gwneud cardiau Santes Dwynwen yng Nghanolfan Hamdden Dolgellau. Roedd y sesiwn hwn wedi ei drefnu gan Morfudd Lloyd ac roedd yn gyfle i'r mamau ifanc ymgynnull â'i gilydd a sgwrsio yn Gymraeg wrth wneud cerdyn. Hefyd cefais wahoddiad gan TWF i ymuno mewn sesiwn siarad ym Mangor. Tra'r oedd y trefnydd yn siarad â'r mamau ifanc roeddwn i yn dangos iddynt sut i wneud cerdyn Santes Dwynwen. Er na dim ond pedair ddaeth yno, teimlais fod y prynhawn wedi bod yn fuddiol gan fod Lowri hefo fi yn sôn am y clwb gwawr ym Mangor a gobeithiwn y byddai gan rhai ohonynt ddiddordeb ymuno â'r clwb.

Cynhaliwyd twrnament bowlio deg rhanbarth Dwyfor yng Nglasfryn nos Iau Ionawr 22ain ac unwaith eto bu'r noson yn llwyddiant gyda 23 o dimau yn cystadlu. Cangen Mynytho ddaeth i'r brig gyda 442 o farciau, cangen Llaniestyn Tîm 1 yn 2ail gyda 415 o farciau a changen Llaniestyn Tîm 3 yn 3ydd gyda 408 o farciau. Llongyfarchiadau i Menai o gangen Mynytho ar ennill ar y marc uchaf i'r unigolyn y noson hon gyda 129 o farciau.

Y noson ganlynol bum yn Llandudno wedi i mi drefnu twrnament bowlio deg rhanbarth Colwyn. Dyma'r tro cyntaf i ranbarth Colwyn gymryd rhan a bu'r noson yn llwyddiant gyda 9 tîm yn cystadlu. Cangen Abergele ddaeth i'r brig gyda 408 o farciau, cangen Pandy Tudur yn 2ail hefo 394 o farciau a Bae Colwyn yn 3ydd hefo 376 o farciau. Sylvia Cracroft oedd yn fuddugol am y marciau unigol o 102.

Cynhaliwyd y trydydd cyfarfod yn ymwneud ag Eisteddfod Meirionnydd a'r Cylch yn Rhydymain. Trafodwyd ynglŷn â chostau'r babell a hefyd cawsom weld gwaith yr aelodau ar gyfer yr arddangosfa. Penderfynwyd mynd am gais Arian i Bawb gan y loteri gan obeithio y derbyniwn gymorth.

Bu i ranbarth Meirionnydd gynnal eu twrnament bowlio deg yng Nglan-llyn nos Wener olaf y mis. Roedd 22 o dimau o bob rhan o'r rhanbarth yno yn mwynhau noson hwyliog. Clwb Gwawr y Gwyniaid ddaeth i'r brig gyda 275 o farciau, cangen Talsarnau yn 2ail gyda 273 a changen Rhydymain yn 3ydd gyda 253 o farciau. Bydd y tair cangen/clwb yma yn mynd ymlaen i gynrychioli'r rhanbarth yng Ngornest y Gogledd mis Chwefror. Eira Lewis o gangen Llandrillo oedd enillydd y noson am y marciau uchaf i'r unigolyn gyda 61 o farciau.

Dydd olaf o Ionawr bu i'r mudiad gynnal cwrs crefft y Gogledd yn Ffermdy Plas Isaf ger Corwen. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda 30 yn mynychu cwrs Brodwaith gwahanol yn defnyddio haearn sodro dan ofal Llinos Roberts a Mary Mars Lloyd ac Ann Jones. Cafodd 24 o aelodau gyfle i weld gwahanol fathau o wneud cardiau cyfarch dan fy ngofal a chroesawyd Winnie James atom o Sir Benfro i drafodi sut i wneud marmaled, jam a cheuled lemwn a sut i'w cyflwyno mewn cystadlaethau.

Daeth yr amser i gynnal y ffeinal Bowlio Deg y Gogledd ac eleni bu 18 tîm o Aberconwy, Arfon, Colwyn, Dwyfor, Maldwyn-Powys a Meirionnydd yn cystadlu i ennill y darian. Cafwyd noson llawn hwyl a brwdfrydedd yn Glasfryn, Pwllheli a Chlwb Gwawr y Gwyniaid ddaeth i'r brig y noson honno gyda changen Bro Cyfeiliog yn ail a changen Llaniestyn yn drydydd. Glenys o gangen Llaniestyn ddaeth i'r brig gyda'r marciau uchaf i unigolyn. Diwedd mis Chwefror cynhaliwyd chwaraeon rhanbarth Dwyfor ym Mynytho ac unwaith eto cafwyd noson llawn hwyl a chwerthin ymysg yr aelodau.

Ym mis Mawrth mynychais gwrs ar gyfer Hyfforddiant Cyllid yn Rhyl, cwrs oedd hwn i ddangos sut i lenwi ffurflenni a darganfod gwybodaeth am wahanol grantiau. Ymunais â rhanbarth Aberconwy yn eu noson chwaraeon yn Eglwysbach. Mynychais bwyllgor rhanbarth Meirionnydd yn Fronoleu a chwaraeon rhanbarth Maldwyn-Powys yn y Cann Office. Bum mewn cyfarfod i drafod cystadlaethau ar gyfer Sioe Sir Meirionnydd a fydd yn cael eu lleoli yng Nghorwen eleni. Mynychais y cyfarfodydd ar gyfer arddangosfa yn yr Eisteddfod .

Ymunais â changen Llaniestyn i wneud cardiau ar gyfer Y Pasg ddechrau mis Ebrill. Trefnwyd noson chwaraeon rhanbarth Arfon yn neuadd bentref Penisarwaun eleni. Trefnodd Lowri (Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr) gwrs Arweinydd Cerdded yng Nghanolfan Cywain y Bala a bu i 8 aelod o'r clybiau a changhennau fynychu'r cwrs hwn. Ymunais â rhanbarth Meirionnydd yn eu Gŵyl Rhanbarth yng nghwmni 'Doctor Steil' a braf oedd gweld dros 140 yn mwynhau'r noson. Ymunais â rhanbarth Meirionnydd yn Neuadd y Cyfnod ar gyfer eu twrnament dartiau a dominos. Cynhaliwyd cwrs gwneud blychau yn Aberconwy a mynychodd dros ddwsin o'r aelodau.

Dechrau mis Mai cynhaliwyd twrnament Badminton a Thenis Bwrdd rhanbarth Meirionnydd yn Bermo. Mynychais gwrs cyfrifiaduron yn Llandudno. Unwaith eto cynhaliwyd Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Ffriars Bangor a mynychodd bron i 300 o aelodau a chafwyd diwrnod difyr iawn. Ymunais â rhanbarth Arfon sydd bob blwyddyn yn cynnal noson wedi ei drefnu gan yr is-bwyllgor ac eleni trefnwyd y noson i arddangos gwaith yr aelodau yn Neuadd Groeslon. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol a'r Ŵyl Haf ym Machynlleth ble cafwyd cystadlu brwd yn yr adran chwaraeon. Cynhaliwyd y badminton, tenis bwrdd a sboncen yn y Ganolfan Hamdden, bowlio a dartiau yn y Clwb Bowlio a'r dominos, gyrfa chwist a dewis dau ddwrn yn yr Ysgol Uwchradd. Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd twrnament sgrabl Cymraeg a fu'n boblogaidd iawn. Yn anffodus ni chynhaliwyd y rownderi gan fod y tywydd ddim yn ffafriol. Mynychais bwyllgor Fforwm Iaith Gwynedd ym Mhorthmadog.

Dechrau mis Mehefin trefnodd Lowri daith gerdded ar gyfer y clybiau a'r canghennau ar y cyd gyda Ruth (swyddog y De) i godi arian i Ymchwil Cancr Y Fron a'r mudiad. Fe wnaeth dros 50 o'r aelodau fwynhau diwrnod braf o haf yn cerdded lawr i'r Orsaf Drên ger Llyn Tegid, teithio ar y trên i Lanuwchllyn ac yna cerdded yn ôl heibio pentref Llangower ac yna ymgynnull yn ôl yng Nghanolfan Cywain a chael sgwrs dros baned. Caglwyd dros £2,000 yn y gogledd. Mynychais Ffair Haf Aberconwy a oedd yn Neuadd Tal y Bont ac yna bore trannoeth cychwyn ar daith i Iwerddon gyda 100 o aelodau'r mudiad. Cafwyd penwythnos bythgofiadwy yn Nulyn, cwmni difyr, taith esmwyth a llond bol o chwerthin! Pawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen am y daith nesaf. Bum yn helpu ambell i ardal ym Meirionnydd ar gyfer yr arddangosfa at yr Eisteddfod.

Yna diwedd mis Gorffennaf daeth yr amser i ni baratoi ar gyfer yr Eisteddfod yma yn Y Bala. Dechreuodd y digwyddiadau wrth i Tegwen, Jac a finnau gladdu'r Capsiwl Amser yng Nghanolfan Cywain ar ddiwrnod gwlyb ofnadwy, ond fe gawsom ni hwyl yng nghanol y

glaw! Ac yna yn y dyddiau yn dilyn i fyny i'r Eisteddfod prysurdeb o baratoi'r babell a'r arddangosfa.

Ac yna ar y dydd cyntaf o Awst, agorwyd y llenni i groesawu pawb o bob cwr o Gymru a rhai tramor i mewn i babell Merched y Wawr. Bu'r babell yn fwrlwm o fore hyd at ddiwedd y dydd - rhai yn troi i mewn i gael paned a sgwrs, cwrdd ffrindiau hen a newydd, ymweld â'r arddangosfa a oedd wedi ei lunio a gwaith cywrain yr aelodau. Ac ar y prynhawn Sadwrn ymgynullodd dros hanner cant o aelodau yng Nghanolfan Cywain i ddadorchuddio'r Capsiwl Amser. Dydd Mercher yr Eisteddfod yw 'Diwrnod y Merched' ar y maes, ac oedd mi oedd hi yn ddiwrnod y merched go iawn eleni. Dechreuodd y bore yn brysur iawn yn paratoi'r bras ar gyfer y prynhawn, ac yna ar lwyfan y Brifwyl bu cyflwyniad gan aelodau rhanbarth Meirionnydd dan arweiniad Mair Penri a bu i hwn ei ddarlledu yn fyw ar S4C. Wedi i'r cyflwyniad orffen, amgylchynodd yr aelodau o gwmpas y babell binc, pawb yn gafael mewn bra ac fe wnaed cadwyn o'r bras. Cawsom gyhoeddusrwydd gwych y diwrnod hwnnw a rhywbeth gwnaiff gadw yn y cof am amser hir iawn. Yna i ddiweddu'r prynhawn cafwyd anerchiad gan Eiry a Lisa Palfrey a Mererid Jones yn Y Babell Lên i gofio am Marged Jones, ein cyn Lywydd Anrhydeddus. Do, fe gawsom Eisteddfod i'w chofio a thywydd bendigedig.

Diwedd y mis bu aelodau rhanbarth Meirionnydd yn brysur yn paratoi ar gyfer y Sioe Sir ar stâd Y Rhug ger Corwen, ac eleni am y tro cyntaf (ers rhai blynyddoedd) roedd adran Merched y Wawr yn llawn gyda nifer fawr wedi cystadlu. Cafwyd dwy arddangosfa yn ystod y dydd, un gan Gari Jones yn arddangos ei waith yn torri gwallt a cholur ac yna hogen leol, Gwenan Paewi, yn arddangos ei gwaith yn nyddu - crefft a ddysgodd tra'n byw yn Seland Newydd.

SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y DE
Ruth Morgan

Yn ystod Hydref 2008 roedd clybiau newydd wedi dechrau yn Y Fenni, Sir Benfro, Tregaron a Chaerdydd. Roedd diddordeb wedi'i ddangos i ddechrau clybiau mewn ardaloedd eraill, megis Llanelli a Gartholwg ond ar ôl sawl ymgais yn anffodus rhaid oedd rhoi'r ffidil yn y to. Ar ddechrau haf 2009, yn dilyn ymholiadau oddi wrth ferched yn ardaloedd Llanfair ym Muallt a Llangrannog, gweithiais tuag at ddechrau clybiau yno. Gobeithir eu dechrau yn ystod tymor yr Hydref 2009. Os yn llwyddiannus, byddai hynny'n golygu bod nifer y clybiau yn y de wedi dyblu ers i mi ddechrau yn y swydd dair blynedd yn ôl o 12 i 24.

Bûm mewn cyswllt cyson gyda'r clybiau mewn amryw ffyrdd - ar y ffôn, e-bost, neges destun ac wrth ymweld. Yn ogystal â chynghori a thrafod unrhyw broblemau, roeddwn yn sôn wrthynt am weithgareddau a chystadlaethau sirol a chenedlaethol. Anogais glybiau newydd a'r rheiny sydd eisoes yn bodoli i gydweithio gyda changhennau lleol o Ferched y Wawr ac i fynychu cyfarfodydd rhanbarth. Roeddwn wedi hyrwyddo ymgyrch casglu bras ymysg y clybiau. Roeddwn wedi cysylltu gyda'r clybiau a oedd heb anfon eu rhaglenni, gan roi cymorth i ambell un i gwblhau eu rhaglenni am y flwyddyn. Anogwyd y clybiau i anfon eu rhaglenni ar e-bost yn ogystal fel y gellir eu gosod ar wefan Clybiau Gwawr. Trefnais fod y wybodaeth sydd yn ymddangos yng nghylchgrawn cyfredol Y Wawr yn ogystal â'r clybiau yn ymddangos ar wefan Clybiau Gwawr. Anogais y clybiau i hysbysebu eu clwb yn y wasg leol, yn *Y Wawr* ac ar y wefan. Yn ystod y flwyddyn cyfrannais at bob rhifyn o'r *Wawr*, gan gasglu newyddion o'r clybiau, sôn am glybiau newydd a chyfweld ag aelodau ar gyfer erthygl 'Diwrnod ym Mywyd...'

Cyfrannais at erthygl a oedd fod i ymddangos yn y *Western Mail* ar sut mae'r mudiad yn mynd ati i ddenu aelodau ifainc. Yn dilyn hyn, siom ar ddechrau 2009 oedd gweld bod sawl

tudalen flaenllaw, liwgar wedi ymddangos yng nghylchgrawn y papur hwnnw yn sôn am Sefydliad y Merched, yn dangos delwedd gyfoes ac yn sôn am eu llwyddiant i ddenu menywod ifainc, a dim am Ferched y Wawr a Chlybiau Gwawr. Ar ôl i Lowri Rees (a oedd yn gweithio fel Swyddog y Wasg ar y pryd) gysylltu gyda nhw dywedwyd eu bod yn golygu gwneud erthygl o'r un fath am fudiad Merched y Wawr. Hyd yn hyn does dim wedi ymddangos.

Roeddwn wedi cyd-arwyddo llythyr a ddrafftiwyd gan Swyddog Datblygu Rhanbarth Caerfyrddin yn galw ar y siopau a fydd yn agor fel rhan o ddatblygiad newydd tref Caerfyrddin i gael arwyddion dwyieithog. Roeddwn hefyd wedi mynychu cynhadledd 'Beth mae'r cynulliad yn ei wneud dros fenywod' yn Abertawe. Yn ystod mis Rhagfyr, ymunais gyda Sioe Nadolig S4C ym Mhontardawe a Chasnewydd, lle cafwyd cyfle i hyrwyddo Clybiau Wawr ymysg mamau ifainc.

Ers dechrau 2009 bûm yn gweithio ar gais am nawdd oddi wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin o dan gynllun 'RDP'. Yn dilyn llawer o gynllunio ac addasu, roeddwn yn llwyddiannus yn ein cais. Mae hyn yn ein galluogi i drefnu cyfres o ddigwyddiadau neu '*Roadshows* ar gyfer aelodau canghennau a chlybiau ar hyd a lled y sir o Hydref 2009 hyd Haf 2010 mewn gwahanol ardaloedd. Gobeithir denu aelodau o siroedd cyfagos i'r gweithgareddau. Bwriedir cynnal prynhawniau o gymdeithasu yn cynnwys paned a chacen, telynores, stondinau, siaradwyr gwadd a sesiynau amrywiol e.e. yn Llandeilo Hydref 2009 bydd Sesiwn Ffasiwn. Yn yr hwyr bydd *gigs* yn yr un lleoliadau ar gyfer y Clybiau Gwawr. Bydd y *Roadshows* eraill yn cael eu cynnal yn Ffarmers Llanwrda (Rhagfyr 2009), yn y Felin Wlân, Drefach Felindre (Ebrill 2010). Roeddwn eisoes wedi cwrdd â Swyddog Cyfathrebu Amgueddfa Wlân Drefach Felindre yn ystod Gwanwyn 2009 i drafod cynnal noson yno ar gyfer y clybiau. Fe fydd y gyfres o ddigwyddiadau yn gorffen yn Neuadd San Pedr ger Caerfyrddin ar Fehefin 11eg 2010. Bydd croeso i aelodau a darpar aelodau i fynychu'r digwyddiadau.

Yn dilyn apêl wrth y mudiad am arian yn y Gwanwyn roeddwn wedi cysylltu gyda'r clybiau i'w hannog i gynnal 'Ffair Sborion Ategolion' neu *Swisho*. Roedd y syniad o ail gylchu ategolion a gwneud arian at achosion da ar yr un pryd yn sicr wedi apelio at y clybiau ac roedd llawer wedi cynnal hwn yn eu rhaglenni a chodi symiau sylweddol o arian.

Trefnwyd Taith Gerdded Noddedig ar gyfer y Clybiau Gwawr ar ddydd Sadwrn Mehefin 13eg 2009. Fe gerddodd Clybiau Gwawr y de ym Mharc Gwledig Pen-bre ger Llanelli a rhai'r gogledd o gwmpas Llyn Tegid. Yn ffodus iawn roedd y tywydd yn fendigedig ac roedd llawer o aelodau wedi gwisgo'r lliw lafant neu binc a gwelwyd sawl het gowboi pinc ymysg y coed ym Mhen-bre. Roedd y teithiau cerdded wedi codi dros £3,000 tuag y Mudiad ac at Ymddiriedolaeth Lafant, sef i helpu menywod ifancach sy'n dioddef o Gancr y Fron. Diolch o galon i'r Staff, Swyddogion ac aelodau oedd wedi helpu, cefnogi a chymryd rhan. Yn sicr rydym yn gobeithio ei wneud yn rhywbeth blynyddol, gan newid y lleoliad er mwyn rhoi cyfle i aelodau yn y gwahanol ranbarthau ei fynychu.

Bûm yn ymweld â gŵp 'Mae dy Gymraeg di'n grêt' Llangennech i sôn wrthynt am Glybiau Gwawr, gyda'r gobaith o'u hannog i ystyried ffurfio Clwb Gwawr gan fod eu sesiynau ar fin gorffen. Mynychais Sesiwn Hyfforddiant ar Weithio gyda Theuluoedd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin a oedd wedi'i drefnu gan Fwrdd yr Iaith. Roeddwn wedi mynychu cyfarfod er mwyn trafod y clybiau gyda Tegwen, Esyllt a Lowri. Mynychais gyfarfodydd staff a chyfarfod o bwyllgor rhanbarth Caerfyrddin. Gweithiais yn Eisteddfod yr Urdd, Bae Caerdydd, yn Niwrnod Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yng Nghaerfyrddin ac yn yr Ŵyl i Fenywod yng Nghymru yn y Gerddi Botaneg yn Llanarthne. Bûm yn gweithio yng Nghyngerdd Dathlu Deugain Rhanbarth Caerfyrddin ym mis Mai, ac yn yrŴyl Fai ym

Machynlleth. Rwyf yn cydweithio gyda staff a swyddogion y mudiad i gynnwys aelodau'r clybiau yn y ddwy Eisteddfod Genedlaethol yn 2010.

Yn ystod Haf 2009 roedd Lowri Rees wedi gadael fel Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr y Gogledd. Yn ffodus iawn roedd Nia Llewelyn o Fachynlleth wedi dechrau yn ei lle ac edrychaf ymlaen at gyd weithio gyda hi.

ADRODDIAD SWYDDOG HYRWYDDO CLYBIAU GWAWR Y GOGLEDD
Lowri Rees-Roberts

Ar ddechrau mis Tachwedd bum mewn cyfarfod yn y Cann Offis yn Llangadfan i geisio sefydlu Clwb Gwawr yn yr ardal. Penderfynwyd cynnal lansiad swyddogol i'r clwb newydd Clwb Gwawr Bwrlwm Banwy ar ddiwedd mis Tachwedd a daeth 12 o aelodau ynghyd. Er gwaethaf brwdfrydedd nifer o'r criw ym mis Ionawr oherwydd diffyg aelodau penderfynodd y clwb mai ei adael am y tro fyddai'r gorau. Ein bwriad yw ail-gychwyn gyda'r Clwb ym mis Medi.

Am y tro cyntaf cefais y fraint o fod yn rhan o'r Cwis Hwyl yn Fron Oleu, Dolgellau, bûm yn cynorthwyo i farcio'r papurau a chafwyd hwyl a digon o chwerthin.

Bum ym mhwyllgor rhanbarth Meirionnydd a gynhaliwyd yn Fron Oleu Dolgellau ar ran Mim a chafwyd trafodaeth ddiddorol iawn am gynlluniau Merched y Wawr ac Eisteddfod Genedlaethol Meirion ac yn dilyn y cyfarfod cefais gyfle i annog aelodau o Glybiau Gwawr am y noson Doctor Steil a fydd yn rhan o ddigwyddiadau'r rhanbarth ym mis Ebrill eleni. Mae yna frwdfrydedd mawr ymysg y clybiau am y noson.

Ymunais â Chlwb Gwawr Y Gwyniaid ar eu taith flynyddol, y tro hwn i Ddinas Gaer a chafwyd amser hwyliog yno a digon o gyfle i wneud ein siopa Nadolig.

Ar ddiwedd y mis cafwyd cyfarfod llewyrchus iawn gyda Tegwen, Esyllt a Ruth ynglŷn â Chlybiau Gwawr, a chafwyd trafodaeth bositif.

Ar Dachwedd 27ain mynychais Fforwm Maldwyn yn y Drenewydd a phenderfynodd Merched y Wawr gydweithio gyda Nia Llewelyn o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar broses o ysgrifennu llythyrau Sïon Corn. Felly unwaith eto eleni bûm yn darllen nifer o lythyrau gan blant o bob oed ardal Machynlleth ac yn eu hateb. Mae'r prosiect yma'n gweithio yn dda bob tro, ond teimlais eleni bod amser yn brin iawn gan na dderbyniwyd y llythyrau tan wythnos olaf y plant yn yr ysgol.

Dechrau Rhagfyr cafwyd cyfarfod gyda Delyth Vaughan o Fantell Gwynedd, a chafwyd cymorth i lenwi ffurflen grant Ewch Amdani er mwyn cynnal sesiwn hyfforddiant Arweinwyr Cerdded ar gyfer aelodau Clybiau Gwawr a Merched y Wawr a bum yn ffodus o dderbyn y grant. Cynhaliwyd y sesiwn ar Ddydd Sadwrn Ebrill y 4ydd yng Nghanolfan Cywain.

Ar Ragfyr y 10fed mynychais Fforwm Wrecsam, cafwyd cyfarfod llewyrchus iawn a dyma gyfleu fy niddordeb i gychwyn clybiau yn yr ardal. Roedd yna wir ddiddordeb ymysg y grŵp ac erbyn hyn rydym yn gwneud y gwaith ymchwil i greu clybiau yn ardal Llangollen/Glyn Ceiriog ac ail atgyfodi'r clwb yn Wrecsam.

Ar Ionawr y 5ed eleni gyda Mim a minnau wedi bod yn llwyddiannus mewn cais grant Ewch Amdani, Mantell Gwynedd, cawsom noson blasu yng Nghanolfan Hamdden Penllyn ar gyfer y canghennau a chlybiau rhanbarth Meirionnydd. Er gwaetha'r tywydd, bu i 15 droi allan gyda mwy am gychwyn yr wythnos ganlynol. Yn ystod yr wythnosau ym mis Ionawr bu dros 20 y noson yn mynychu'r nosweithiau hyn yn y Ganolfan a braf yw gweld aelodau o Ferched Y Wawr a chlybiau yn mynychu'r nosweithiau gyda'i gilydd. Cost fechan sydd i'r aelodau o £2 y noson - cânt gyfle i ddefnyddio'r pwll nofio, y gampfa neu weithgaredd yn y Neuadd. Bu'r nosweithiau hyn yn dilyn hyd at ddiwedd Mawrth a gobeithiwn y bydd yr aelodau hyn yn parhau i ddefnyddio'r ganolfan.

Ar Ionawr 20fed mynychais Fforwm Llanrwst a bu'n rhaid trafod y newyddion trist bod Clwb Gwawr Crwst wedi penderfynu cau. Trafodwyd y mater gyda Swyddog Bwrdd yr Iaith, Dafydd Appoloni yn dilyn y cyfarfod a phenderfynwyd ail edrych ar y sefyllfa, a gweld os oedd modd cael criw i ail gydio yn yr awenau.

Cafodd Mim a minnau wahoddiad gan TWF i gynnal sesiwn gwneud cardiau Santes Dwynwen a sgwrs yng Nghanolfan Hamdden Dolgellau. Roedd y sesiwn hwn wedi ei drefnu gan Morfudd Lloyd ac roedd yn gyfle i'r mamau ifanc ymgynnull a'i gilydd a sgwrsio yn y Gymraeg wrth wneud cerdyn. Bûm yn sgwrsio am y Clybiau Gwawr. Roedd pedair wedi troi allan ar gyfer y sesiwn hwn.

Hefyd cefais wahoddiad gan TWF i ymuno mewn sesiwn siarad ym Mangor. Tra roedd Mim yn cynorthwyo'r merched i wneud cardiau, roeddwn innau yn cael cyfle i siarad am y Clybiau. Dangoswyd llawer iawn o ddiddordeb a theimlais i'r prynhawn fod yn fuddiol.

Mynychais bwyllgor staff yn Aberystwyth.

Bu i ranbarth Meirionnydd gynnal eu twrnament bowlio deg yng Nglanllyn nos Wener olaf y mis. Roedd 22 o dimau o bob rhan o'r rhanbarth yno yn mwynhau noson hwyliog. Roeddwn yn aelod o Glwb Gwawr y Gwyniaid a ddaeth i'r brig gyda 275 o farciau. Cafodd ein tîm fynd i Lasfryn ar Chwefror 20fed a bûm yn llwyddiannus iawn yno ac ennill!!

Dros y tri mis diwethaf dwi wedi bod yn brysur iawn yn cydweithio gyda nifer yn edrych ar y posibiliadau o sefydlu Clybiau Gwawr yn Yr Wyddgrug, Cerrigydrudion, a Llanfairfechan.

CRYNODEB O STRATEGAETH MERCHED Y WAWR YN 2009/2010

1. Cynnal 3,000 o weithgareddau ar lefel leol yn rheolaidd gan geisio denu aelodau newydd ac agor Canghennau a Chlybiau Gwawr newydd lle bo'r angen.

2. Cynnal pwyllgorau a gweithgareddau Rhanbarthol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysylltiad rhwng lefel leol a chenedlaethol.
3. Cyflogi 6 Swyddog Datblygu, un yn y Gogledd-Orllewin a Maldwyn Powys, un yng Nghaerfyrddin, un yn y De-ddwyrain a De Powys, un yn Gorllewin Morgannwg, un yn y Gogledd-Ddwyrain, ac un ym Mhenfro a Cheredigion, a dwy Swyddog Hyrwyddo'r Clybiau Gwawr - un yn y De a'r llall yn y Gogledd: er mwyn:
   - Hybu gweithgaredd y Mudiad
   - Cynnal a chynorthwyo'r aelodaeth bresennol
   - Denu aelodau newydd
   - Sefydlu Clybiau Gwawr a Changhennau newydd
   - Trefnu gweithgareddau a chael nwyddau newydd i greu incwm i'r Mudiad
4. Gweithredu Cyfansoddiad y Mudiad ac yn sgil hynny:
   - Cynnal o leiaf 4 cyfarfod o Bwyllgor Llywio'r Mudiad
   - Cynnal 2 gyfarfod o'r Pwyllgor Rhyngranbarthol
   - Cynnal Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai
   - Parhau gyda'r 3 Is-bwyllgor cenedlaethol, i gwrdd o leiaf 2 waith y flwyddyn a chynnal pwyllgorau ar y cyd yn ôl y galw.
5. Marchnata a hyrwyddo'r Ganolfan Genedlaethol.
6. Cynnal Penwythnos Preswyl Cenedlaethol yn Aberystwyth ar y thema Cicio'r Bar.
7. Trefnu rhaglen Penwythnos Preswyl 2010 yn Llanbedr Pont Steffan.
8. Cynnal Cystadleuaeth Radi Thomas - pedair eitem o grefft, a chystadleuaeth trefnu blodau 'Dawns y Dail' yn ystod Sioe Amaethyddol Llanelwedd 2010.
9. Cynnal Chwaraeon Cenedlaethol a chystadleuaeth adloniant - a chyflwyno tri thlws y Dysgwyr yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth i'w drefnu gan y Pwyllgorau Cenedlaethol ar y cyd.
10. Cyhoeddi a dosbarthu 4 rhifyn o gylchgrawn *Y Wawr*.
11. Cyhoeddi Dyddiadur 2010 ac argraffu cardiau Nadolig 2009.
12. Trefnu stondinau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion; Sioe Amaethyddol Llanelwedd (Sioe'r Cardis, Ceredigion) ac Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd
13. Cynnal Cwis Hwyl Cenedlaethol.
14. Cynnal Cwrs Crefft Undydd yn y De a'r Gogledd.
15. Cynnal Cinio'r Llywydd yn y De a'r Gogledd.

ADRODDIAD ANNIBYNNOL GAN ARCHWILWYR I YMDDIRIEDOLWYR MERCHED Y WAWR

Rwyf yn adrodd ar gyfrifon yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Awst 2009 sydd wedi eu gosod ar dudalennau 42 i 47.

Cyfrifoldebau priodol i ymddiriedolwyr a'r archwiliwr
Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen o'r farn nad oes angen archwilio cyfrifon (audit) eleni (o dan adran 43(3) (a) o Ddeddf Elusennau 1993) ac mae arolwg annibynnol sydd angen.

Fy nghyfrifoldeb i ydyw:

- Gwneud arolwg o'r cyfrifon (o dan adran 43 (a) o'r Ddeddf);

- i ddilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi eu paratoi yn y Cyfeiriadau Cyffredinol wedi eu rhoi gan y Comisiynwyr Elusennau (o dan adran 43(7)(b) o Ddeddf 1993);

- i ddatgan os oes materion penodol wedi dod i fy sylw.

Sail adroddiad annibynnol yr archwilwyr
Cynhaliwyd yr arolwg yn ôl Cyfarwyddiadau Cyffredinol wedi eu rhoi gan y Comisiynwyr Elusennau. Mae'r archwiliad yn cynnwys adolygiad o gofnodion cyfrifo sy'n cael eu cadw gan yr elusen a chymhariaeth o'r cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno gyda'r cofnodion hynny. Mae hyn hefyd yn cynnwys ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu ddatguddiadau yn y cyfrifon, a chael esboniadau oddi wrthoch chwi'r ymddiriedolwyr yngŷn â materion o'r math yma. Mae'r dull o weithredu a ymgymerrir â hwy ddim yn cynnwys yr holl wybodaeth a fyddai yn angenrheidiol i gael mewn archwilio cyfrifon (audit) ac, yn sgil hyn, nid wyf yn cynnig barn archwilio cyfrifon ar fy sylwadau a roddir gennyf ar y cyfrifon.

Datganiad arolygwr annibynnol
Yn gysylltiedig â fy arolwg, nid oes unrhyw fater wedi dod i fy sylw:

- sydd yn rhoi achos rhesymol i mi gredu bod, mewn unrhyw berthynas materol, y gofynion sydd yn dilyn heb eu cyrraedd:

    a) i gadw cofnod o'r cyfrifon mewn cytundeb â s.41 o Ddeddf 1993; ac
    b) i baratoi cyfrifon sy'n cydsynio gyda'r cofnodion cyfrifo ac yn cydymffurfio gyda'r angenrheidiau cyfrifon o Ddeddf 1993 a'r rheoliadau a waned wedi hynny.

E M Davies
Davies & John
Cymdeithas Siartredig Cyfrifwyr Ardystiedig
12 Stryd y Frenhines
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PU

20 Mawrth 2010